Canolfan Gydweithredol Sefydliad Iechyd y Byd ar Fuddsoddi ar gyfer Iechyd a Llesiant

World Health Organization Collaborating Centre on Investment for Health and Well-being

Polisi

GIG CYMRU NHS WALES

Iechyd Cyhoeddus Cymru

Public Health Wales

# Gwneud y mwyaf o iechyd a llesiant i bobl a chymunedau sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol:

## Canllaw i ddefnyddio'r Ddyletswydd Economaidd-Gymdeithasol mewn polisi ac ymarfer yng Nghymru.

Awduron: Sara Elias, Lewis Brace a'r Athro Jo Peden

Mehefin 2023



# Diolchiadau

**Hoffem ddiolch i gydweithwyr yn Iechyd Cyhoeddus Cymru am ddarparu adborth a chyfrannu at ddatblygiad y canllaw hwn: Ciarán Humphreys, Nerys Edmonds, Lee Parry-Williams, Liz Green, Junaid Iqbal, Ann Jones, Nathan Lester, Louisa Nolan, Julie Slona, Catherine Sharp ac Angela Cook.**

**Hoffem hefyd ddiolch i Emma Horan yng Nghyngor Sir Ddinbych am roi adborth, ac i Caroline McDonnell a Laura Rich o Dîm Iechyd Cyhoeddus Aneurin Bevan Gwent am ddarparu adborth ac astudiaeth achos.**

**Yn olaf, rydym yn ddiolchgar am y cyfraniad a wnaed gan Uned Gymorth Asesu'r Effaith ar Iechyd Cymru (WHIASU) yn Iechyd Cyhoeddus Cymru wrth ddarparu cynnwys ar y rheoliadau Asesu'r Effaith ar Iechyd sydd ar ddod a sut mae hyn yn berthnasol i bolisïau eraill Cymru.**

# Cynnwys

Rhagair ..... 3
Crynodeb ..... 3
Cyflwyniad i'r Ddyletswydd ..... 4
Arweinyddiaeth system ..... 11
Gweithredu'r Ddyletswydd yn ymarferol ..... 16
Defnyddio data yn effeithiol ..... 21
Ymgysylltiad ystyrlon ..... 25
Sut ydym yn gwybod a ydym wedi gwneud gwahaniaeth? ..... 29
Cyfeiriadau ..... 31
Adnoddau ..... 34

ISBN: 978-1-83766-174-9
© 2023 Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru.
Gellir atgynhyrchu'r deunydd a gynhwysir yn y ddogfen hon o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored (OGL) www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3/ cyn belled â'i fod yn cael ei wneud yn gywir ac nad yw'n cael ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.
Cydnabyddiaeth i'w nodi i Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru.
Mae hawlfraint yn y drefn deipograffyddol, y dyluniad a'r gosodiad yn perthyn i Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru.

# Rhagair




**Mae cyflawni Cymru Fwy Cyfartal yn un o'r saith nod a nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Mae'r ddeddf yn rhoi'r pum ffordd o weithio i gyrff y sector cyhoeddus yng Nghymru a fydd yn ein cefnogi i wneud gwell penderfyniadau heddiw ar gyfer Cymru Fwy Cyfartal yfory. Daeth Dyletswydd Economaidd-Gymdeithasol Llywodraeth Cymru i rym yn 2021 a'i nod yw sicrhau canlyniadau gwell i'r rhai sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol.**

Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru yn cefnogi'r ysgogiadau polisi pwysig hyn a fydd yn gweithredu i alluogi gwell penderfyniadau i sicrhau bod gwasanaethau'n hygyrch ac yn deg i bawb, gan arwain at nod arall a nodir yn y Ddeddf; Cymru iachach.

Nod y ddogfen hon, sy'n cyd-fynd â Chanllawiau Statudol Llywodraeth Cymru, yw sefydlu manteision iechyd y boblogaeth o weithredu'r Ddyletswydd yn llwyddiannus.

# Crynodeb

Nod y Canllaw hwn yw helpu cyrff cyhoeddus yng Nghymru i gymhwyso'r Ddyletswydd Economaidd-Gymdeithasol fel y gall weithredu fel ysgogiad pwerus i wella canlyniadau iechyd i bobl a chymunedau sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol. Mae gan gyrff cyhoeddus gyfle i ymgorffori'r Ddyletswydd yn eu systemau a'u dulliau gweithredu er mwyn sicrhau bod y Ddyletswydd yn gwneud gwahaniaeth systematig ac nad ymarfer ticio blychau yn unig mohono.

Mae'r Canllaw hwn yn amlinellu ac yn disgrifio:

- **Gofynion y Ddyletswydd Economaidd-Gymdeithasol;**
- **Anghydraddoldebau canlyniad o ganlyniad i anfantais economaidd-gymdeithasol;**
- **Yr angen am arweinyddiaeth gref a gweladwy;**
- **Rhestrau gwirio ymarferol i helpu i ymgorffori'r Ddyletswydd Economaidd-Gymdeithasol mewn systemau a phrosesau;**
- **Ffynonellau data ar gyfer gweithredu;**
- **Egwyddorion a dulliau ar gyfer gweithio mewn partneriaeth â phobl â phrofiadau byw, gan sicrhau bod eu lleisiau'n cael eu clywed;**

  a

- **Deall sut rydych chi wedi gwneud gwahaniaeth.**

# Cyflwyniad i'r Ddyletswydd

## Beth yw'r Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol?

Nod cyffredinol y Ddyletswydd Economaidd-Gymdeithasol yw cefnogi cyrff y sector cyhoeddus yng Nghymru i wneud penderfyniadau gwell a fydd yn gwella canlyniadau i bobl a chymunedau sydd dan anfantais economaidd-gymdeithasol.

**Cyrff cyhoeddus a gwmpesir gan y Ddyletswydd**

- Gweinidogion Cymru;
- Cyngor Sir neu Gyngor Bwrdeistref Sirol;
- Bwrdd Iechyd Lleol;
- Ymddiriedolaeth GIG;
- Awdurdodau Iechyd Arbennig (sy'n gweithredu ar sail Cymru yn unig);
- Awdurdod Tân ac Achub;
- Awdurdod Parc Cenedlaethol;
- Awdurdod Refeniw Cymru.

Mae gan Gymru a'r Alban Ddyletswydd Economaidd-Gymdeithasol ar waith o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Daeth y Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol i rym yng Nghymru ar y 31ain Mawrth 2021 ac mae'n gosod cyfrifoldeb cyfreithiol ar **gyrff cyhoeddus** penodol pan fyddant yn gwneud **penderfyniadau strategol** i roi **sylw dyledus** at yr angen i leihau **anghydraddoldebau canlyniadau** yn deillio o **anfantais economaidd-gymdeithasol.**[1]

## Diffiniadau o fewn y Ddyletswydd

### Beth yw penderfyniad strategol?

Penderfyniadau strategol yw'r rhai sy'n effeithio ar y modd y mae'r corff cyhoeddus yn cyflawni ei ddiben statudol arfaethedig (ei swyddogaethau o ran y set o bwerau a dyletswyddau y mae'n eu defnyddio i gyflawni ei gylch gwaith) dros gyfnod sylweddol ac ni fyddant yn cynnwys penderfyniadau 'dydd-i-ddydd' arferol.[1]

I rai cyrff cyhoeddus, dim ond yn flynyddol y gellir gwneud penderfyniadau o'r fath, ond mewn achosion eraill byddant yn cael eu gwneud yn amlach. Er enghraifft, gall y rhain fod yn gynlluniau tymor canolig i hirdymor (er enghraifft, cynlluniau corfforaethol, cynlluniau datblygu, cynlluniau darparu a gwella gwasanaethau) neu benderfyniadau caffael a chomisiynu mawr.[1]

Gan gyfeirio at adolygiad o Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb, canfu Archwilio Cymru fod "lle i ddrysu ynghylch pa fath o bolisïau ac arferion y mae'n rhaid iddynt fod yn destun asesiad o'u heffaith ar ddyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus".[2] Fel mesur rhagataliol, gall sefydliadau gefnogi gweithrediad y Ddyletswydd drwy egluro cwmpas y Ddyletswydd ar eu polisïau a'u harferion eu hunain.

## Beth mae'n ei olygu i roi sylw dyledus?

Mae sylw dyledus yn gysyniad cyfreithiol sefydledig mewn cyfraith cydraddoldeb a chyhoeddus sy'n golygu *"Rhoi pwysau ar fater penodol yn gymesur â'i berthnasedd."* Ar gyfer y Ddyletswydd Economaidd-Gymdeithasol mae hyn yn golygu sicrhau bod 'Sylw Dyledus' wedi'i roi i'r **angen i leihau'r anghydraddoldebau o ran canlyniadau sy'n deillio o anfantais economaidd-gymdeithasol**.[1]

Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn annog cyrff i ddod o hyd i ffyrdd newydd ac arloesol o wella'r graddau yr ystyrir anfantais gymdeithasol ac economaidd.[1]

## Beth yw anghydraddoldebau canlyniad?

| **Anghydraddoldeb canlyniad** |
| --- |
| Anghydraddoldeb canlyniad yw unrhyw wahaniaeth fesuradwy mewn canlyniad rhwng y rhai sydd wedi profi anfantais economaidd-gymdeithasol a gweddill y boblogaeth. |

Ffynhonnell: Cymru Fwy Cyfartal, 2021[1]

Er mwyn byw'n dda, mae angen y blociau adeiladu sylfaenol ar bob un ohonom ar gyfer iechyd da - cartrefi diogel, cynnes, mynediad at wasanaethau, ac arian ar gyfer dillad, bwyd iach a biliau ynni. Fodd bynnag, pan fyddwn yn cael ein heffeithio gan anfantais economaidd-gymdeithasol mae'n golygu efallai na fydd gennym y pethau hyn mwyach. Mae pobl yr effeithir arnynt gan anfantais economaidd-gymdeithasol yn fwy tebygol o fyw mewn tai anaddas neu orlawn, cael ansawdd aer gwael yn eu cymdogaethau a chael trafferth i gael mynediad at wasanaethau. Cyfeirir at y rhain fel anghydraddoldebau canlyniad, ac maent yn ei gwneud yn llawer anoddach byw bywydau iach.

## Beth yw anfantais economaidd-gymdeithasol?

| **Anfantais economaidd-gymdeithasol** |
| --- |
| Byw mewn amgylchiadau cymdeithasol ac economaidd llai ffafriol nag eraill yn yr un gymdeithas. |

Ffynhonnell: Cymru Fwy Cyfartal, 2021[1]

Yn fras, mae anfantais economaidd-gymdeithasol yn golygu byw mewn amgylchiadau cymdeithasol ac economaidd llai ffafriol o gymharu ag eraill yn yr un gymdeithas, gydag ychydig neu ddim cyfoeth cronedig, gan arwain at fwy o amddifadedd materol, gan gyfyngu ar y gallu i gael mynediad at nwyddau a gwasanaethau sylfaenol.


Mae anfantais economaidd-gymdeithasol yn cynnwys rhyngweithio cymhleth ystod eang o ffactorau o dlodi i iechyd, addysg, symudedd cymdeithasol cyfyngedig, tai a diffyg disgwyliadau.  Gall rhywun sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol fod yn ddifreintiedig o ran incwm, yn byw mewn ardal ddifreintiedig neu'n perthyn i gymuned sy'n profi tlodi ac anghydraddoldeb cymdeithasol yn anghymesur, er enghraifft, rhieni unigol neu rai teuluoedd lleiafrifoedd ethnig mwy. Mae'r Ddyletswydd Economaidd-Gymdeithasol yng Nghymru yn gofyn inni edrych ar anfantais economaidd-gymdeithasol drwy dair lens: cymunedau o le, cymunedau o ddiddordeb a rhyng-gysylltedd.

Mae cynnwys rhyng-gysylltedd yn y Ddyletswydd Economaidd-Gymdeithasol yn gosod dyletswydd arnom i archwilio'r ffyrdd y mae gwahanol agweddau ar hunaniaeth rhywun, fel rhieni unigol benywaidd neu bobl ifanc ddu sy'n gadael gofal, yn gorgyffwrdd. Yn aml mae'r hunaniaethau sy'n gorgyffwrdd hyn wedi'u cuddio o fewn y data, ond bydd gwneud penderfyniad ymwybodol i nodi a deall y materion hyn drwy wrando ar y rhai sydd â phrofiad byw yn helpu i ddatblygu polisïau a phrosesau sy'n diwallu eu hanghenion yn well.

**Anfantais economaidd-gymdeithasol**

| Cymuned o le | Cymuned o ddiddordeb | Rhyng-gysylltedd |
|---|---|---|
| Lleoliadau daearyddol a rennir, er enghraifft lle mae pobl yn gweithio neu'n byw. | Hunaniaeth a rennir, er enghraifft rhieni unigol neu'r rhai sy'n gadael gofal. | Y ffordd y gall nodweddion fel rhywedd, hil neu ddosbarth, ryngweithio a chynhyrchu profiadau anfantais unigryw ac weithiau lluosog. |

Mae'r diagram isod yn dangos anfantais economaidd-gymdeithasol fel penderfynydd anghydraddoldeb canlyniad.




(Ffynhonnell: Cymru Fwy Cyfartal, 2021)[1]


Mae'r adran isod yn darparu tystiolaeth bellach o'r berthynas rhwng anfantais economaidd-gymdeithasol ac anghydraddoldeb canlyniad, gyda ffocws ar iechyd.

## Amddifadedd ardal

Mae tystiolaeth sy'n dangos bod ardaloedd mwy difreintiedig yn cydberthyn â chanlyniadau iechyd a chymdeithasol gwaeth.[3] Gall y rhain gynnwys iechyd corfforol a meddyliol gwaeth,[4] cyrhaeddiad addysgol gwaeth,[5] problemau sy'n ymwneud â thai fel anwedd, lleithder, drafft a llwydni,[6] a phroblemau cymdogaeth megis llygredd a strydoedd anniogel.[7]

Mae ardaloedd mwyaf difreintiedig Cymru yn dueddol o fod yr ardaloedd mwyaf poblog, megis cymoedd y De, ardaloedd o fewn dinasoedd a rhai o drefi arfordirol a gororau Gogledd Cymru.[8] Dangosir enghraifft o hyn ym map Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru 2019 isod lle mae pob un o'r deg Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Is mwyaf difreintiedig ym Mro Morgannwg i gyd wedi'u lleoli yn y Barri.[9] Mae ardaloedd o amddifadedd sydd wedi'u gwreiddio'n ddwfn (yr ardaloedd bach hynny sydd wedi aros ymhlith y 50 mwyaf difreintiedig yng Nghymru ar gyfer 5 cyhoeddiad diwethaf safleoedd Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru) hefyd i'w cael yn bennaf yng Nghymoedd De Cymru.[8]

MALIC 2019 Graddau cyffredinol ym Mro Morgannwg



Mae'r ACEHI mwyaf difreintiedig ym Mro Morgannwg wedi'u hamlygu yn y lliw tywyllach (Ffynhonnell: Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Bro Morgannwg, 2019)[9]


Ceir cyferbyniadau mawr rhwng ffiniau daearyddol. Mae ffigurau a ryddhawyd gan Iechyd Cyhoeddus Cymru ar gyfer 2018-2020 yn dangos mai Sir Fynwy oedd â'r disgwyliad oes iach uchaf ar gyfer dynion a menywod yng Nghymru, tra bod gan Flaenau Gwent a Thorfaen gyfagos y disgwyliad oes iach isaf ar gyfer dynion a menywod, yn y drefn honno.[10] Fodd bynnag, ni fydd anfantais economaidd-gymdeithasol bob amser yn cael ei brofi mewn cymunedau gwahanol ac adnabyddadwy a chanfuwyd bod mesurau seiliedig ar ardal yn gyfyngedig o ran nodi unigolion sy'n ddifreintiedig o ran incwm a chyflogaeth.[11] Gall mesurau ardal hefyd guddio amddifadedd gwledig, o ganlyniad i gyfartaleddau ffafriol a gwahanol brofiadau o amddifadedd. Wrth ddatblygu polisïau ac ymyriadau, mae'n bwysig felly cysylltu setiau data ac ymyriadau sy'n cydnabod y berthynas gymdeithasol ac economaidd rhwng cymunedau.[11]

## Cyfoeth isel/dim cyfoeth

Mae cyfoeth yn gysylltiedig ag iechyd[12] ac mae awgrymiadau y gallai anghydraddoldeb cyfoeth fod yn bwysicach fel sbardun i iechyd y boblogaeth nag anghydraddoldeb incwm,[13] ac efallai mai'r cyfoeth hwnnw yw'r fantais economaidd-gymdeithasol fwyaf o ran disgwyliad oes iach.[14] Gall cyfoeth gynnwys, er enghraifft, buddsoddiadau, cyfrifon banc, eiddo, meddiannau ac asedau na ellir eu marchnata megis pensiynau.[12] Gellir ei gysyniadoli fel cronfa o adnoddau sy'n gweithredu fel ffynhonnell o sicrwydd ariannol pan fo gwariant brys megis atgyweirio cartrefi a cherbydau neu newidiadau annisgwyl mewn incwm o ganlyniad i afiechyd, anabledd, diweithdra neu deulu'n chwalu.[15]

Ceir bod cyfoeth yn gysylltiedig, er enghraifft, â chyrhaeddiad addysgol, cyflogadwyedd ac enillion,[15] disgwyliad oes iach[12] ac iechyd meddwl fel y'i mesurir gan drallod seicolegol.[16]

Mae'r diagram isod yn dangos y mecanweithiau y mae anghydraddoldebau mewn iechyd ac ymddygiadau sy'n gysylltiedig ag iechyd yn cael eu llywio gan y penderfynyddion ehangach, gan gynnwys yr amodau y mae pobl yn cael eu geni, yn tyfu, yn byw, yn gweithio ac yn heneiddio ynddynt.




Cyfranwyr rhyng-gysylltiedig seicogymdeithasol iechyd (Addaswyd o: Public Health England, 2018)[17]

Canfu dadansoddiad diweddar o gyfoeth aelwydydd yn y DU a gynhaliwyd gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol fod cyfoeth cartref net canolrifol wedi codi yng Nghymru rhwng 2018 a 2020 ac wedi dangos adferiad o flwyddyn i flwyddyn ers 2012.[18,19] Fodd bynnag, mae'r ffigur ar gyfer Cymru yn parhau i fod yn is na chyfartaledd y DU[18] a chynyddodd anghydraddoldeb cyfoeth yn y DU ar ôl y cyfnod hwn.[20] Mae model diweddar o oblygiadau anghydraddoldeb cyfoeth y dirwasgiad sy'n deillio o'r pandemig COVID-19 yn dangos, ar gyfer senarios dirwasgiad tymor byr a hirdymor, y disgwylir y bydd gostyngiad mewn cronni cyfoeth a cholli cyfoeth difrifol, yn y drefn honno, ar gyfer aelwydydd incwm is sy'n economaidd weithgar, a chynnydd mawr mewn anghydraddoldeb cyfoeth.[21]

## Cefndir economaidd-gymdeithasol

Mae'r ffordd y caiff cefndir economaidd-gymdeithasol ei ddiffinio yn amrywio ond yn gyffredinol mae'n ystyried cyfuniad o ffactorau cymdeithasol ac economaidd megis addysg rhieni, galwedigaeth rhieni, incwm y cartref a dibyniaeth ar gymhorthdal incwm y llywodraeth ac a yw myfyrwyr yn cael prydau ysgol am ddim.[22]

Mae tystiolaeth bod sefyllfa economaidd-gymdeithasol ac iechyd yn trosglwyddo o genhedlaeth i genhedlaeth, ac felly anghydraddoldebau.[23] Mae tystiolaeth empirig hefyd yn awgrymu bod cydberthynas gref rhwng enillion rhiant a phlentyn,[24] a chyrhaeddiad addysgol.[25]

Ymchwiliodd astudiaeth ddiweddar o blant yng Nghymru i'r cysylltiad rhwng Potensial i Adael Tlodi (PLP) (dangosydd yn mesur cwblhau Cyfnod Allweddol 4, dim cyflyrau iechyd meddwl, dim camddefnyddio sylweddau a dim camddefnyddio alcohol). ac amddifadedd ar lefel aelwydydd (cymhwysedd i gael Prydau Ysgol am Ddim (PYDd)).[5] Roedd 22% o blant PYDd a gyflawnodd PLP o gymharu â 55% o blant nad ydynt yn FSM. I dros 75% o blant PYDd na lwyddodd i gyflawni PLP, roedd hyn oherwydd cyrhaeddiad addysgol gwael. Mae ymchwil arall yng Nghymru yn dangos bod cysylltiad arwyddocaol rhwng sefyllfa economaidd-gymdeithasol plentyn yn ei ysgol uwchradd a llesiant.[26] Roedd plant yng Nghymru o deuluoedd tlotach a'r rhai sy'n mynychu ysgolion cynradd mwy difreintiedig hefyd yn fwy tebygol o boeni am y pontio i'r ysgol uwchradd.[27]

Mae gan Gymru'r cyfraddau tlodi plant uchaf yn y DU.[28] Mae data gan Brifysgol Loughborough ar ran y Glymblaid Dileu Tlodi Plant yn dangos bod dros draean o blant Cymru yn byw mewn tlodi, sy'n gyson uchel ar draws pob un o'r 22 awdurdod lleol.[28] Bu cynnydd amlwg mewn tlodi plant yng Nghymru rhwng 2019-2021 ac roedd tlodi mewn gwaith yn ffactor pwysig wrth egluro'r cyfraddau tlodi uchel.[29] Oherwydd yr argyfwng costau byw a'r gostyngiad dilynol mewn incwm real, mae tlodi plant absoliwt yn mynd i godi 2.9% yn y DU rhwng 2021/22 a 2023/24.[30]

## Incwm isel/dim incwm

Anghydraddoldeb incwm yw un o'r metrigau a ddefnyddir amlaf wrth fesur anghydraddoldeb ac mae'n ymwneud yn gyffredinol ag anghydraddoldebau mewn incwm gwario.[31] Mae ffigurau gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol yn dangos bod gan Gymru yn 2020 y trydydd isaf o ran incwm gwario aelwydydd o holl wledydd y DU a rhanbarthau Lloegr a'r trydydd twf isaf ers 1999.[32] Roedd amrywiad mewn incwm gwario fesul awdurdod lleol yn dilyn patrwm tebyg i fesurau anfantais eraill; Sir Fynwy oedd â'r uchaf a Blaenau Gwent oedd â'r isaf.[33]

Mae cydberthynas uchel rhwng incwm isel ac iechyd gwael ac iechyd meddwl.[34] Canfuwyd hefyd fod incymau cyfartalog uwch yn gysylltiedig ag amser hirach y disgwylir treulio mewn iechyd da neu heb salwch hirdymor cyfyngol.[35] Canfu amcangyfrif diweddar nad oedd dros chwarter y cartrefi incwm isel yn y DU wedi gallu gwresogi eu cartref yn ddigonol yn ystod gaeaf 2022.[36] Mae'n hysbys bod nifer o gyflyrau iechyd difrifol yn gysylltiedig â chartrefi oer.[37] At hynny, oherwydd yr argyfwng costau byw diweddar, rhagwelir y bydd incwm gwario gwirioneddol aelwydydd y pen yn y DU rhwng 2022/23 a 2023/24 yn gweld y gostyngiad mwyaf mewn dwy flynedd ers dechrau cadw cofnodion.[38] Cyllidebau aelwydydd incwm isel sy'n cael eu heffeithio fwyaf gan y cynnydd mewn costau byw.[39]

Mae pobl ar yr incwm isaf yn llai tebygol o fod yn berchen ar gar ac maent er enghraifft yn fwy tebygol o ymgymryd â theithiau bws neu deithiau cerdded.[40] Yng Nghymru, mae llawer nad oes ganddynt gar yn dibynnu ar wasanaethau bysiau i gael mynediad at hanfodion sylfaenol.[41] Yn y degawd diwethaf, mae prisiau tanwydd wedi codi llai na 10% tra bod prisiau tocynnau trên, coets a bws wedi cynyddu rhwng 33% a 74%.[42] Mae prisiau uwch yn cael mwy o effaith ar bobl sy'n dibynnu ar drafnidiaeth gyhoeddus yn ogystal â phobl ar incwm is[43], a gall diffyg trafnidiaeth arwain at ynysu niweidiol sy'n dylanwadu'n negyddol ar lesiant.[40]

## Amddifadedd materol

Mae amddifadedd materol yn cyfeirio at anallu unigolion neu aelwydydd i fforddio nwyddau, gwasanaethau a gweithgareddau penodol sy'n nodweddiadol o gymdeithas ar amser penodol, ni waeth a fyddent yn dewis cael yr eitemau hyn, hyd yn oed pe baent yn gallu fforddio eu cael.[44] Gellir defnyddio eitemau o'r fath (a'r eithrio ohonynt) i nodi pa mor gyffredin yw tlodi a phobl y mae eu hadnoddau mor isel fel eu bod yn cael eu heithrio o safonau byw arferol.[45] Mae amddifadedd materol yn crynhoi canlyniadau tlodi hirdymor ar aelwydydd, yn hytrach na straen ariannol tymor byr.[46] Yn y DU mae costau byw cynyddol wedi golygu y bu cynnydd mewn tlodi absoliwt ac amddifadedd materol.[47]

Ledled Ewrop canfyddir bod gan amddifadedd materol gysylltiad negyddol sylweddol â blynyddoedd bywyd iach yn 50 oed,[48] ac yng Nghymru canfyddir bod nifer yr achosion o ganlyniadau iechyd negyddol hunan-gofnodedig, gan gynnwys lles meddwl isel, o leiaf ddwywaith yn uwch yn y rhai sy'n dweud eu bod mewn amddifadedd materol o gymharu â'r rhai nad ydynt.[49]

Mewn model a gynhyrchwyd gan Iechyd Cyhoeddus Cymru,[49] Cyfalaf Cymdeithasol a Dynol a Diogelwch Incwm a Diogelu Cymdeithasol sy'n cyfrif fwyaf am y bylchau iechyd a welwyd a gellir eu hesbonio gan y model, yn y mwyafrif o'r canlyniadau iechyd a archwiliwyd, rhwng y rhai sy'n ddifrentiedig yn faterol yng Nghymru a'r rhai nad ydynt yn ddifrentiedig yn faterol.

# Arweinyddiaeth system

**Mae angen dull cydgysylltiedig ar lefelau cenedlaethol a lleol i fynd i'r afael ag anfantais economaidd-gymdeithasol. Mae'r Ddyletswydd Economaidd-Gymdeithasol yn darparu lifer i helpu sefydliadau i feddwl sut y gallant wneud hyn mewn ffordd systematig. Mae dull systemau yn helpu i ddeall y sbardunau ar gyfer anfantais economaidd-gymdeithasol a chydgysylltu ymateb cydgysylltiedig i fynd i'r afael ag ef.**

## Beth ydyw a pham mae ei angen arnom?

Mae arweinyddiaeth systemau yn cyfeirio at sgiliau a gallu unigolyn neu sefydliad i arwain newid ar draws ffiniau, boed y rhain yn fewnol neu'n allanol i'r sefydliad. Er mwyn gweithredu'r Ddyletswydd Economaidd-Gymdeithasol yn llwyddiannus, ac i gyflawni ei nod cyffredinol o wella bywydau pobl a chymunedau sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol, mae angen i ni fabwysiadu dull gweithredu sy'n cydnabod cymhlethdod ac ehangder y materion sydd ar waith.

Mae'r Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol yn rhoi cyfle i sefydliadau **newid** y ffordd y maent yn meddwl, yn gweithredu ac yn darparu gwasanaethau i'r grwpiau **mwyaf difreintiedig**. Gellir defnyddio'r Ddyletswydd fel **lifer** i wreiddio meddwl fel mater o drefn am effaith penderfyniadau ar y grŵp hwn yn y prosesau o fewn y sefydliad. Er mwyn cyflawni hyn, mae'n debygol y bydd angen newid diwylliant oddi wrth weld y Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol fel ymarfer ticio blychau a chydnabod ei gallu i gyflawni newid seismig yn y ffordd yr ydym yn gweithio. Er bod ffocws statudol y Ddyletswydd ar y lefel strategol, y nod yn y pen draw ddylai fod i ystyriaeth gael ei phrif ffrydio; mae ganddi'r potensial i gael effaith fawr ar y ffordd y gwneir penderfyniadau ymarferol eraill neu benderfyniadau gweithredol o ddydd i ddydd.

Mae hyn yn gofyn am arweinyddiaeth a 'newid systemau'.

Mae mynd i'r afael ag achosion anghydraddoldebau iechyd ac amddifadedd cymdeithasol yn her gymhleth ac mae angen arweiniad ar draws gwasanaethau cyhoeddus. Dyhead allweddol yw y gall sefydliadau gydweithio'n effeithiol i wella iechyd y cyhoedd a lleihau anghydraddoldebau iechyd.[50]

Mae hyn yn gofyn am ddull cydweithredol a system gyfan at arweinyddiaeth, gan gefnogi pawb i gydweithio'n fwy effeithiol. Bydd deall tirwedd y system yn edrych yn wahanol ar gyfer pob ardal, ond gallai gynnwys gweithio gydag aelodau etholedig fel Cynghorwyr Lleol neu drwy Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus i sicrhau bod gan bawb yr un ddealltwriaeth o'r materion a'r heriau a'u bod yn cael eu hannog i weithio'n wahanol i gyflawni canlyniadau gwell i bobl Cymru.

Dangosir y sgiliau arwain sydd eu hangen ar gyfer dull system gyfan o fynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd yn y tabl cyfagos.


**Sgiliau arwain ar gyfer dull system gyfan**

- Deall tirwedd y system ac ymwybyddiaeth wleidyddol
- Meithrin perthnasoedd a chydweithio ystyrlon
- Ceisio safbwyntiau gwahanol
- Dylanwadu ar newid
- Deall newid
- Arwain newid
- Trawsnewid arloesi

Gellir diffinio newid system fel:

> ***'Mynd i'r afael ag achosion sylfaenol problemau (yn hytrach na symptomau) trwy drawsnewid strwythurau, arferion, meddylfryd, deinameg pŵer a pholisïau, trwy gryfhau pŵer cyfunol trwy gydweithredu gweithredol rhwng pobl a sefydliadau amrywiol. Mae'r cydweithio hwn wedi'i wreiddio mewn nodau a rennir i gyflawni gwelliant parhaol i ddatrys problemau cymdeithasol ar lefel leol, genedlaethol a byd-eang'.*** [51]

Mae'r darlun mynydd iâ isod yn dangos y gwahanol lefelau y gall newid systemig ddigwydd arnynt: mae newidiadau 'dyfnach' yn tueddu i arwain at fwy o effaith ond gall newidiadau llai dramatig baratoi'r ffordd tuag at y newidiadau dyfnach hyn.




Mae tystiolaeth gynyddol i awgrymu y gall dull systemau cymhleth fod o gymorth ymarferol o ran egluro mecanweithiau sy'n ysgogi canlyniadau iechyd andwyol, ymddygiad system a hefyd pennu ble a sut i ymyrryd drwy'r trosoledd gorau posibl i gyflawni canlyniadau iechyd poblogaeth cadarnhaol.[52]

Nid yw newid system yn ddisgyblaeth newydd ac mae ganddi gorff cryf o dystiolaeth y tu ôl iddi. Yn fwy diweddar, fe'i cymhwyswyd i faterion iechyd y cyhoedd gan ei fod yn arbennig o addas ar gyfer problemau sy'n gymhleth, yn aml-ddimensiwn ac yn cynnwys amrywiol actorion a chydrannau cydgysylltiedig. Y fantais yw ei fod yn ceisio deall a mapio'r rhyngweithiadau rhwng elfennau amrywiol o fewn system gymhleth, yn hytrach nag ar rôl a chyfraniad yr elfennau hynny ar eu pen eu hunain. Mae hyn yn ein helpu i ganolbwyntio ar atebion newydd a gweithio ar y cyd i ddatrys problemau a newid systemau.

Gellir defnyddio dull newid system o fewn sefydliad i ymgorffori'r Ddyletswydd Economaidd-Gymdeithasol mewn systemau a phrosesau. Yn ogystal, gellir ymestyn dull newid system i'r 'system ehangach' i annog a chynnwys rhanddeiliaid i gydweithio ar draws penderfynyddion ehangach iechyd i wella canlyniadau iechyd i bobl a chymunedau sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol.

**Rhestr wirio o gwestiynau i alluogi newid system yn fewnol**

- A oes dealltwriaeth ac ymwybyddiaeth o lefel y Bwrdd i dimau cyflawni yn eich sefydliad o'r hyn yw'r Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol a'r hyn sydd ei angen i fodloni'r ddyletswydd?
- A oes gennych broses i sicrhau bod strategaethau yn cael eu hadolygu yng ngoleuni'r Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol?
- A oes gennych broses asesu effaith integredig?
- A yw effaith strategaethau ar grwpiau economaidd-gymdeithasol is ac anghydraddoldebau eraill mewn iechyd wedi'u hamlygu ar dempledi papurau'r Bwrdd?
- A oes gennych broses ddilys i sicrhau cydgynhyrchu a bod lleisiau'r rhain yr effeithir arnynt gan amddifadedd yn cael eu clywed?
- A ydych yn sicr nad ymarfer ticio blychau yn unig yw'r Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol ond ei bod yn cael ei defnyddio mewn gwirionedd i wreiddio gwella anghydraddoldeb iechyd yn y gwaith y mae eich sefydliad yn ei wneud?
- A oes gennych hyrwyddwyr ar gyfer y Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol ar draws eich sefydliad yn cynnwys ar lefel y Bwrdd?

Mae ymchwil o Brifysgol Beckett Leeds yn amlygu'r angen i greu map o yrwyr symudol a rhyngweithiol a'r angen i gydnabod na fydd mynd i'r afael ag un gyrrwr ar ei ben ei hun yn gweithio.[53] Mae angen edrych ar gyfraniadau sefydliadau unigol ond hefyd sut mae'r system gyfan yn gweithio gyda'i gilydd ac yn gallu bod yn 'fwy na chyfanswm ei rhannau'.[53] Un nodwedd o weithio system yw gallu cael yr hyblygrwydd i newid ac addasu cynlluniau pan fo angen wrth i'r dull ddatblygu. Dylai camau gweithredu gael eu cysoni, eu monitro, eu hadolygu a'u haddasu'n rheolaidd er mwyn: asesu eu heffeithiolrwydd yn erbyn nodau y cytunwyd arnynt; ymgorffori unrhyw ddysgu newydd; mynd i'r afael â newidiadau yn anghenion y boblogaeth leol neu'r sylfaen adnoddau.

Mae angen dull hyblyg gyda pharodrwydd i roi cynnig ar ddulliau newydd ac i fod yn barod i newid cynlluniau i oresgyn rhwystrau neu faterion. Gellir gweithredu ystod traws-sector o gamau gweithredu – mae hyn yn cynnwys nodi meysydd gweithgarwch lle gall ardal leol weithredu a chreu ystod o gamau gweithredu tymor byr, canolig a hir o amgylch y meysydd hyn. Gan gydnabod y cyfyngiadau ariannol ac adnoddau presennol, mae'n syniad da canolbwyntio ar y meysydd gweithgarwch hynny sy'n debygol o gael yr effaith fwyaf.

## Cwestiynau i'w hystyried ar gyfer Newid System Gyfan[54]:

- Sut mae cyfeirio ein hymdrechion yn fwy pwrpasol o arbrofion bach a datrysiadau un pwynt ac atebion cyflym i drawsnewid system?

- Sut mae rhannu a chysylltu data yn fwy effeithiol rhwng sefydliadau?

- A ydych chi'n cynnwys ac yn cyd-gynhyrchu newid gyda'r rhai sy'n profi anghydraddoldebau gofal iechyd trwy ymgysylltu â chymunedau wrth ddylunio, gweithredu a gwerthuso?

- Sut rydym yn creu mecanweithiau cadarn ar gyfer dysgu a myfyrio *cyfunol*?

**Astudiaeth achos**

## Adeiladu Gwent Decach

Mae llawer o ffactorau mewn cymdeithas, yr economi a'r amgylchedd sy'n dylanwadu ar iechyd a llesiant pobl. Mae anghydraddoldebau o fewn y ffactorau hyn – penderfynyddion cymdeithasol iechyd – fel dosbarthiad anghyfartal o ran cyfoeth ac adnoddau, yn gyrru'r amodau y mae pobl yn byw ynddynt ac yn creu gwahaniaeth annheg ac anghyfiawn mewn cymdeithasau. Gellir gweld y gwahaniaethau hyn yng Ngwent lle mae annhegwch sylweddol mewn iechyd, addysg, tai, incwm a chyflogaeth ar draws ardaloedd yr awdurdod lleol. Ym mis Mehefin 2022 i helpu i fynd i'r afael â rhai o'r materion hyn, comisiynodd Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwent (BGC) y Sefydliad Tegwch Iechyd (IHE) fel arbenigwyr byd-eang ym maes anghydraddoldebau iechyd i ganfod syniadau ac argymhellion ar gyfer y rhanbarth.

Mae'r dasg gymhleth hon yn gofyn am ddull ystwyth ac ymgysylltiad gan amrywiol bartneriaid ar gyfer newid systemau. Ym mis Medi 2022i helpu i yrru newid, sefydlwyd y tîm Adeiladu Gwent Decach (BAFG) o fewn tîm iechyd y cyhoedd lleol Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan am 12 mis i weithio ochr yn ochr â'r IHE a Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwent (PGC) i gyflwyno'r 'rhanbarth Marmot' cyntaf yng Nghymru. Ym mis Hydref 2022, daeth y tîm BAFG ag arweinwyr o ar draws Gwent at ei gilydd mewn digwyddiad lansio lle siaradodd Yr athro Syr Michael Marmot am fynd i'r afael ag anghydraddoldeb a phrofiadau o weithio gyda rhanbarthau Marmot eraill. Dyma oedd y cyfle cyntaf mewn gwirionedd i ysgogi momentwm yn y rhaglen ac ennill y gefnogaeth oedd ei hangen ar gyfer newid systemau.

## Astudiaeth achos

### Adeiladu Gwent Decach (parhad)

Gan weithio trwy BGC Gwent – mae dod â phum BGC awdurdodau lleol a oedd ar wahân yn flaenorol, nid yn unig yn cynnig cyfleoedd i gydweithio ar draws ardaloedd awdurdodau lleol, ond mae hefyd yn cynnig cyfle i ddylanwadu ar y Cynllun Llesiant Gwent newydd. Mae'r Cynllun Llesiant yn ddogfen allweddol, yn manylu ar sut fydd y BGC yn gwella'r rhanbarth ar gyfer ei breswylwyr dros y pum mlynedd nesaf. Mae sicrhau bod y cynllun hwn yn cymhwyso lens tegwch iechyd drwyddi draw, yn ogystal â dull cwr bywyd trwy gynnwys wyth egwyddor Marmot, wedi bod yn dasg allweddol i'r tîm BAFG ac yn fecanwaith gwerthfawr ar gyfer newid systemau.

Cynigiodd fynediad at randdeiliaid ar draws Gwent drwy weithdy a drefnwyd ym mhob ardal awdurdod lleol i drafod drafft o'r Cynllun Llesiant ragor o gyfleoedd i gysylltu â phartneriaid a thrafod anghenion o fewn eu meysydd gwaith, dod i adnabod system Gwent, a thrafod nodau rhaglen Marmot. Yn dilyn y digwyddiadau hyn, cynhaliwyd gweithdy arall penodol ar dai ym mis Mawrth 2023, gydag arweinwyr cymdeithasau tai, i drafod pa gamau sydd angen ei cymryd i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau a diffygion mewn tai cymdeithasol yng Ngwent.

Dangosodd y gweithdai Cynllun Llesiant yr awydd o fewn y bartneriaeth am waith systemau, cydweithredol. Er mwyn galluogi cydweithio, mae grŵp Gwent-benodol yn cael ei sefydlu yn y Rhwydwaith Tegwch sydd newydd ei sefydlu, a lansiwyd gan IHE ym mis Ionawr 2023. Bydd y rhwydwaith yn darparu llwyfan i bartneriaid ar draws Gwent gysylltu, gofyn am gyngor, ceisio cymorth a chysylltu â rhanbarthau Marmot eraill a gweithwyr proffesiynol sy'n gweithio ym meysydd annhegwch iechyd a phenderfynyddion cymdeithasol.

Er ei fod yn angenrheidiol ac yn fuddiol i dreulio amser yn ymgysylltu arweinwyr a phartneriaid, mae'r tîm nawr yn siarad â gweithwyr proffesiynol a dinasyddion am eu profiadau a'r hyn sy'n bwysig iddyn nhw. Bydd adborth o'r trafodaethau hyn yn dylanwadu ar adroddiad rhanbarth Marmot IHE Gwent, i'w gyhoeddi ym mis Mehefin 2023, ac y bydd yn helpu i bennu'r camau nesaf gyda'r bwriad o gydgynhyrchu mentrau gyda chymunedau. Gyda phum ardal awdurdod lleol i'w cwmpasu, tîm rhaglen bach ac amserlen dynn, bydd caffael sbectrwm eang o anghenion yn lleol yn her. Bydd angen datblygu'r gwaith ar ôl mis Medi 2023, a mecanwaith allweddol ar gyfer dod â newid cadarnhaol fydd ymrwymiad gan arweinwyr, partneriaid a chymunedau ond hefyd ymarferion monitro a gwerthuso cryf fydd yn annog hyblygrwydd a chynnydd ar gyfer gweithredu.

# Gweithredu'r Ddyletswydd yn ymarferol

**Mae'r Canllawiau Statudol yn darparu dull 5-cam o roi sylw dyledus i'r Ddyletswydd Economaidd-Gymdeithasol. Mae'r dull 5 cam yn amlinellu'r camau ar gyfer nodi'r angen i gynnal asesiad, sut i gwblhau asesiad, y cylch o adolygu'r polisi neu ymyriad wedyn, ac yna adrodd i uwch benderfynwyr neu aelodau'r Bwrdd.**

| Cynnal asesiad o effaith | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Cynllun** | **Tystiolaeth** | **Asesu a gwella** | **Llunwyr penderfyniadau strategol** | **Cofnodi** |
| A yw'r penderfyniad yn benderfyniad strategol? | Pa dystiolaeth sydd gennych am anfantais economaidd-gymdeithasol ac anghydraddoldebau canlyniad mewn perthynas â'r penderfyniad hwn?<br>A ydych wedi ymgysylltu â'r rhai yr effeithir arnynt gan y penderfyniad?<br>A ydych wedi ystyried lleoedd a chymunedau o ddiddordebau ill dau? | Beth yw prif effeithiau'r cynnig?<br>Sut gellir gwella'r cynnig fel ei fod yn lleihau anghydraddoldebau canlyniad o ganlyniad i anfantais economaidd-gymdeithasol? | Mae'r cam hwn er mwyn i lunwyr penderfyniadau gadarnhau bod sylw dilys wedi'i roi, er enghraifft swyddogion gweithredol a chyfarwyddwyr anweithredol, ac aelodau byrddau. Rhaid iddynt fod yn fodlon bod y corff wedi deall y dystiolaeth a'r effaith debygol, a wedi ystyried a ellir newid y polisi i leihau anghydraddoldeb canlyniad o ganlyniad i anfantais economaidd-gymdeithasol. | Y cam hwn yw'r broses o gyflwyno tystiolaeth a chofnodi sut mae 'sylw dilys' wedi'i roi. Ar y cam hwn dylai newidiadau i'r penderfyniad gael eu gwneud a'u cofnodi. |

Mae'r pwyntiau isod yn ganllaw defnyddiol i sicrhau bod tystiolaeth allweddol ac effaith penderfyniadau strategol ar anghydraddoldebau i bobl sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol wedi'i hystyried.

Mae'r prosesau asesu effaith a ddefnyddir gan gyrff cyhoeddus ar gyfer y Ddyletswydd Economaidd-Gymdeithasol mewn perygl o ddod yn ymarferiad 'ticio blychau', fel y disgrifiwyd gan y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol.[56] Dylai anghydraddoldeb canlyniadau o ganlyniad i anfantais economaidd-gymdeithasol fod yn ganolbwynt yn y broses o lunio polisi. Mae hyn yn gofyn am newid diwylliannol ac arweinyddiaeth o fewn y sefydliad (gweler y bennod 'Arweinyddiaeth system') a symud o safbwynt amddiffynnol yn yr asesiad effaith i safbwynt manteisgar o wella cydraddoldeb canlyniadau ac ychwanegu gwerth.

Gellir ystyried yr asesiad effaith fel arf cyfranogol sy'n rhoi cyfle i gynnwys safbwyntiau'r rhai sydd â phrofiad byw (gweler y bennod 'Ymgysylltu ystyrlon') ar y cam cynharaf posibl o'r broses gwneud penderfyniadau a'i ddadansoddi ar y cyd â data o ansawdd uchel arall sydd ar gael (gweler y bennod 'Defnyddio data'n effeithiol'). Er mwyn asesu a yw penderfyniadau wedi lliniaru effaith neu ychwanegu gwerth, dylai'r asesiad effaith gynnwys argymhellion ar sut y cânt eu monitro a'u gwerthuso (gweler y bennod 'Sut rydym yn gwybod a ydym wedi gwneud gwahaniaeth?') a ddefnyddir hefyd i nodi a oedd unrhyw effeithiau nas rhagwelwyd.

## **Asesiadau Effaith Ystyrlon** – cwestiynau allweddol i'w hystyried[55]:

- Beth yw effeithiau posibl y cynnig/penderfyniad fel yr ydym yn eu deall ar hyn o bryd?
- A oes unrhyw ganlyniadau anfwriadol i'r cynnig/penderfyniad ar bobl sy'n profi tlodi ac sy'n dioddef fwyaf o ran anghydraddoldeb?
- Sut y gellid gwella'r cynnig/penderfyniad fel ei fod yn lleihau neu'n lleihau ymhellach anghydraddoldebau canlyniad, gan ganolbwyntio'n benodol ar anfantais economaidd-gymdeithasol?
- Sut bydd y polisi neu wasanaeth hwn yn ein cynorthwyo i leihau anghydraddoldeb mewn canlyniadau yn gyffredinol?
- Sut gallwn ni sicrhau bod barn a phrofiadau pobl mewn tlodi ac sy'n dioddef fwyaf o ran anghydraddoldeb yn llywio penderfyniadau a chynllun gwasanaethau?
- Sut bydd camau gweithredu a chanlyniadau yn cael eu monitro?
- [Os ydym yn bwriadu addasu cynnig/penderfyniad], a allwn addasu ein penderfyniad ymhellach er budd cymunedau penodol o ddiddordeb neu leoedd sydd mewn mwy o berygl o anfantais economaidd-gymdeithasol?

**Mae'n bwysig nodi nad yw'r Ddyletswydd Economaidd-Gymdeithasol yn ddyletswydd ar ei phen ei hun ond yn hytrach yn ymwneud â chyfres o ddyletswyddau yng Nghymru sydd i gyd yn chwarae eu rhan i alluogi cyrff cyhoeddus i weithio tuag at hybu cydraddoldeb a mynd i'r afael ag anghydraddoldeb**. Yn benodol, mae angen inni fod yn ymwybodol o'r dyletswyddau sy'n gorgyffwrdd ond yn wahanol â Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus, a'r rheoliadau Asesu'r Effaith ar Iechyd (HIA) sydd ar ddod o dan Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017 – a'u perthynas â nodau llesiant Cymru "Iachach" a "Mwy Cyfartal" yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 – gweler y tabl isod.

**Mapio'r dyletswyddau a'r canlyniadau iechyd a chydraddoldeb disgwyliedig**

| | Deddf Cydraddoldeb 2010: Y Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol | Deddf Cydraddoldeb 2010: Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus | Rheoliadau HIA Deddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017 |
|---|---|---|---|
| **Cwmpas y Polisi** | • Anfantais Economaidd-gymdeithasol | • Unigolion a grwpiau â nodweddion gwarchodedig | • Poblogaeth gyfan<br>• Grwpiau poblogaeth sy'n profi anghydraddoldebau iechyd<br>• Penderfynyddion Ehangach Iechyd |
| **Cymhwyso'r ddyletswydd gyfreithiol yn ofynnol** | • Penderfyniadau strategol | • Polisïau ac arferion arfaethedig | • Eto i'w gyhoeddi |
| **Canlyniadau mewn perthynas â chydraddoldeb** | • Lleihau anghydraddoldebau canlyniad o ganlyniad i anfantais economaidd-gymdeithasol | • Dileu gwahaniaethu anghyfreithlon<br>• Hyrwyddo cyfle cyfartal<br>• Meithrin perthnasau da | • Lleihau anghydraddoldebau sy'n ymwneud â phenderfynyddion ehangach iechyd (gan gynnwys ffactorau economaidd-gymdeithasol)<br>• Cyflawni tegwch iechyd |
| **Canlyniadau mewn perthynas ag iechyd a llesiant** | • Lleihau anghydraddoldebau mewn canlyniadau cysylltiedig ag anfantais economaidd-gymdeithasol<br>• Cael gwared ar rwystrau i fynediad at wasanaethau iechyd sy'n gysylltiedig ag anfantais economaidd-gymdeithasol | • Atal effeithiau negyddol ar iechyd sy'n deillio o wahaniaethu<br>• Cael gwared ar rwystrau i fynediad at wasanaethau iechyd a chyfleoedd eraill sy'n dylanwadu ar ganlyniadau iechyd a llesiant | • Gwella canlyniadau iechyd a llesiant y boblogaeth<br>• Atal niwed<br>• Lleihau anghydraddoldebau mewn canlyniadau iechyd a llesiant |
| **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015<br>Cymru Iachach a Fwy Cyfartal** | | | |

Mae pob un o'r Deddfau hyn yn cydweithio i sicrhau bod cyrff y sector cyhoeddus yn ystyried effeithiau posibl gwneud penderfyniadau. Mae pob un yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff sector cyhoeddus gynnwys y rhai sydd â phrofiad byw a bod yn dryloyw ynghylch y ffordd y gwneir penderfyniadau. Mae gwahaniaethau o ran craffu ac adrodd, fodd bynnag, maent i gyd yn cynnwys gofyniad i fod yn atebol, ac felly i gofnodi'r broses o wneud penderfyniadau.

Offeryn a dull iechyd y cyhoedd yw HIA sy'n gallu nodi effeithiau iechyd, llesiant a thegwch posibl, a lle y'u gwelir, rhai gwirioneddol, mewn perthynas â pholisi, cynllun neu brosiect ar draws poblogaeth ar grwpiau poblogaeth penodol. Mae HIAs yn galluogi nodi a yw'r effeithiau hynny'n gadarnhaol neu'n hyrwyddo cyfleoedd neu a oes ganddynt ganlyniadau negyddol, neu ganlyniadau negyddol anfwriadol ac i bwy.[57] Gall HIAs helpu i nodi camau gweithredu a lliniaru seiliedig ar dystiolaeth i leihau neu ddileu effeithiau negyddol a gwneud y mwyaf o rai cadarnhaol.[58]

Mae HIA yn defnyddio fframwaith o benderfynyddion ehangach grwpiau iechyd a phoblogaeth i wneud asesiad o effaith, a gellir defnyddio HIA i ddangos sylw dyledus mewn perthynas â'r dyletswyddau cyfreithiol a drafodwyd uchod. Rhoddir enghreifftiau o sut mae'r fframwaith HIA a chwmpas y dyletswyddau cyfreithiol yn alinio yn y ddau dabl isod.


**Mapio'r Fframwaith Asesu HIA i'r dyletswyddau cyfreithiol 1**

| Penderfynyddion ehangach iechyd | Nodau Llesiant | SED ac ystyriaethau Cydraddoldeb |
|---|---|---|
| **Ymddygiadau sy'n effeithio ar iechyd** | • Cymru Iachach | • Tlodi bwyd<br>• Hapchwarae<br>• Ysmygu<br>• Anweithgarwch corfforol<br>• Alcohol |
| **Dylanwadau cymdeithasol a chymunedol** | • Cymunedau Cydlynol<br>• Cymru Iachach<br>• Diwylliant ac Iaith Gymraeg ffyniannus<br>• Cymru Gyfartal | • Llesiant y gymdogaeth<br>• Cydlyniant cymunedol<br>• Gwahaniaethu<br>• Cymorth cymdeithasol |
| **Iechyd a llesiant meddyliol** | • Cymunedau Cydlynus<br>• Cymru Iachach | • Cyfranogiad cymdeithasol a chynhwysiant<br>• Ymdeimlad o reolaeth |
| **Amodau byw ac amgylcheddol** | • Cymru Iachach<br>• Cymru gyfartal<br>• Cymunedau Cydlynol | • Tai<br>• Diogelwch cymunedol<br>• Mynediad i fannau gwyrdd |
| **Amodau economaidd** | • Cymru Lewyrchus<br>• Cymru Gyfartal | • Cyflogaeth<br>• Incwm<br>• Dyled<br>• Asedau materol |
| **Mynediad i wasanaethau** | • Cymru Iachach<br>• Cymru Gyfartal<br>• Cymru Lewyrchus<br>• Diwylliant ac Iaith Gymraeg ffyniannus | • Mynediad i'r rhyngrwyd<br>• Cludiant<br>• Gwasanaethau hygyrch |
| **Ffactorau macro-economaidd, amgylcheddol a chynaliadwyedd** | • Cymru Gyfartal<br>• Cymru Iachach<br>• Cymru Gydnerth<br>• Cymru Lewyrchus<br>• Cymru sy'n Gyfrifol yn Fyd-eang | • Costau byw<br>• Datblygu economaidd Masnach<br>• Newid yn yr hinsawdd<br>• Bioamrywiaeth |

| Mapio'r Fframwaith Asesu HIA i'r dyletswyddau cyfreithiol 2 | |
|---|---|
| **Grwpiau poblogaeth a ystyriwyd mewn HIA** | **SED ac ystyriaethau Cydraddoldeb** |
| **Grwpiau cysylltiedig ag oedran** | • Oedran (nodwedd warchodedig) |
| **Grwpiau cysylltiedig â rhyw a rhywedd** | • Rhyw (nodwedd warchodedig)<br>• Ailbennu rhywedd (nodwedd warchodedig)<br>• Beichiogrwydd a mamolaeth (nodwedd warchodedig) |
| **Grwpiau sydd â risg uwch o wahaniaethu neu anfantais gymdeithasol arall** | • Rhyw (nodwedd warchodedig)<br>• Cyfeiriadedd rhywiol (nodwedd warchodedig)<br>• Anabledd (nodwedd warchodedig)<br>• Crefydd, cred neu ddiffyg cred (nodwedd warchodedig) |
| **Grwpiau cysylltiedig ag incwm** | • Anweithgar yn economaidd<br>• Di-waith<br>• Pobl sy'n byw ar incwm isel<br>• Pobl nad ydynt yn gallu gweithio oherwydd salwch<br>• Anabledd (nodwedd warchodedig)<br>• Anfantais materol<br>• Hawlwyr budd-daliadau<br>• Cyflogaeth ansicr |
| **Grwpiau a/neu leoliadau daearyddol** | • Anfantais ardal |
| **Grwpiau eraill** | • Priodas neu bartneriaeth sifil (nodwedd warchodedig) |

Gall y broses HIA hefyd gefnogi cyflawni'r dyletswyddau cyfreithiol. Mae cysoni cryf rhwng egwyddorion HIA â'r egwyddor Datblygu Cynaliadwy, a'r dulliau disgwyliedig o fodloni'r Ddeddf Cydraddoldeb[59] - gweler y diagram isod.

**Cysoni egwyddorion ar draws y dyletswyddau cyfreithiol**



# Defnyddio data yn effeithiol

## Ystyried y dystiolaeth sydd ar gael ar anfantais economaidd-gymdeithasol ac anghydraddoldeb canlyniadau

Bydd gan gyrff cyhoeddus ffynonellau niferus ac unigryw o ddata meintiol ac ansoddol presennol ar anfantais economaidd-gymdeithasol ac anghydraddoldeb canlyniadau ar gael iddynt. Cyn casglu data newydd i lywio'r asesiad o effaith gwneud penderfyniad strategol, dylid adolygu'r sylfaen dystiolaeth bresennol, ac os oes adnoddau a staff penodedig yn bodoli yn y sefydliad i gynnal a gweithio ar ffynonellau mewnol, dylid ymgynghori â nhw.  Yn ogystal ag adolygu data meintiol, dylai'r adolygiad hwn hefyd gynnwys data ansoddol a allai fod wedi'i gasglu trwy gylchoedd adborth gwasanaeth a/neu brosesau ymgynghori.

Yn ystod hydref 2022, sefydlodd Iechyd Cyhoeddus Cymru 'Amser i Siarad Iechyd Cyhoeddus', sef panel cynrychioliadol cenedlaethol o drigolion 16+ oed yng Nghymru, fel mecanwaith i alluogi ymgysylltiad rheolaidd â'r cyhoedd i lywio polisi ac ymarfer iechyd y cyhoedd. Mae'r panel yn gweinyddu arolygon rheolaidd ar sbectrwm eang o bynciau sy'n ymwneud ag iechyd y cyhoedd, er enghraifft, costau byw, petruster brechlynnau, llesiant meddwl, sgrinio, amgylcheddau bwyd a newid hinsawdd; pynciau sydd i gyd yn unol â strategaeth hirdymor Iechyd Cyhoeddus Cymru. Cyhoeddir adroddiadau ar bob arolwg a weinyddir. Mae'r setiau data hefyd ar gael i'w harchwilio ymhellach er mwyn darparu mewnwelediadau gwerthfawr pellach i lywio gweithredu.

Gall ffynonellau allanol o dystiolaeth bresennol gwmpasu ystod eang ac amrywiol o ddeunydd gan sefydliadau lleol, cenedlaethol neu ryngwladol. Yn aml, mae'r ffynonellau allanol hyn wedi'u cynhyrchu am yr union reswm eu bod yn cael eu defnyddio gan gyrff cyhoeddus a rhanddeiliaid eraill ar gyfer datblygu polisi, cynllunio gwasanaethau a dyrannu cyllid. Mantais defnyddio'r data hwn yw ehangder a graddfa'r gwaith hwn, a'i gywirdeb. Bydd hyn yn arbed amser gan y gall y data hwn fod ar gael ar unwaith.

Ni fydd llawer o gyrff cyhoeddus yn gallu cwblhau'r lefel hon o waith oherwydd cyfyngiadau adnoddau. Mae enghreifftiau o ffynonellau data o'r fath sydd ar gael i gyrff cyhoeddus yng Nghymru wedi'u cynnwys mewn tabl yn yr adran ganlynol. Gellir dod o hyd i ffynonellau data ychwanegol yn yr adran adnoddau ar ddiwedd yr adroddiad hwn.

## Beth yw'r effeithiau gwirioneddol neu debygol?

Bydd hefyd yn bwysig ystyried ystod eang o dystiolaeth. Bydd hyn yn cynnwys tystiolaeth ynghylch beth yw'r effeithiau gwirioneddol neu debygol y gallai'r penderfyniad eu cael ar y rhai sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol ac ystyried tystiolaeth o opsiynau a allai ddarparu mwy o fudd. Gall y wybodaeth hon ddod o werthusiadau o bolisïau tebyg mewn cyrff cyhoeddus eraill, o ddata monitro a gwerthuso mewnol wrth ddiweddaru polisi, ymchwil academaidd, a chymunedau o ddiddordeb.

## Mynd i'r afael â bylchau tystiolaeth

Mae'n debygol y bydd bylchau y bydd angen mynd i'r afael â hwy wrth adolygu'r dystiolaeth. Mae'n bosibl ac yn aml yn angenrheidiol cynhyrchu tystiolaeth newydd, a ddylai gynnwys ymgysylltu'n uniongyrchol â'r rhai sydd â phrofiad byw. Fodd bynnag, ni ddylai fod ffenestr gaeedig o gyfle i bobl a chymunedau adael adborth/profiadau yn ymwneud â gwasanaethau, rhaglenni a swyddogaethau. I gynorthwyo hyn, dylid sefydlu system o gasglu a monitro data arferol. Gallai dulliau eraill gynnwys cynnal arolygon, holiaduron, grwpiau ffocws a chyfweliadau. Er mwyn nodi bylchau ac arwain y gwaith casglu data pellach hwn, bydd yn bwysig distyllu'r dystiolaeth bresennol trwy ddulliau megis adolygiadau llenyddiaeth a systematig a dadansoddiad pellach o'r data presennol.

## Sgiliau data a chapasiti o fewn ein sefydliadau

Er mwyn i ddata a gwybodaeth gael eu defnyddio'n effeithiol ac yn effeithlon i wella prosesau gwneud penderfyniadau sy'n seiliedig ar ddata a thystiolaeth, dylid gwerthfawrogi sgiliau data hyfedr ymhlith yr holl aelodau staff fel adnodd allweddol a'u blaenoriaethu ar gyfer gwelliant. Bydd hyn nid yn unig yn caniatáu capasiti ar gyfer rheoli a chynnal cronfeydd data, i'w defnyddio gan y corff cyhoeddus a'i bartneriaid ond bydd hefyd yn caniatáu i ddata o ansawdd uchel gael ei gyflwyno pan fydd penderfyniadau strategol yn cael eu gwneud.

## Sicrhau rhannu data

Bydd gan gyrff cyhoeddus fynediad i raddau amrywiol o ansawdd a thystiolaeth berthnasol. Er enghraifft, bydd gan Fyrddau Iechyd Lleol ddata cyfoethog ar gael iddynt ar anghydraddoldebau canlyniadau allweddol sy'n ymwneud ag iechyd, a bydd gan gynghorau lleol fynediad at fesurau allweddol o anfantais economaidd-gymdeithasol yn eu hardal, megis hawl i gael prydau ysgol am ddim.

Am y rhesymau hyn felly mae'n bwysig cydweithio, gan rannu'r hyn a ddysgwyd o'r dulliau a ddefnyddiwyd, enghreifftiau o arferion da a chyfuno adnoddau. Mae cytundebau rhannu data eisoes yn bodoli rhwng cyrff cyhoeddus yng Nghymru sydd wedi cael eu hwyluso gan Gytundeb Rhannu Gwybodaeth Bersonol Cymru (WASPI). Gall cyrff cyhoeddus hefyd gasglu tystiolaeth drwy eu haelodaeth o'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, a sefydlwyd o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 i gynnal asesiadau o lesiant lleol i lywio datblygiad cynlluniau llesiant lleol.[1]

Yn y pen draw, bydd cael data o ansawdd uchel yn helpu i sicrhau bod y penderfyniadau mwyaf effeithiol yn cael eu gwneud nid yn unig i osgoi anghydraddoldeb pellach ond hefyd i wneud y mwyaf o'r budd i ganlyniadau'r rhai sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol.

## Astudiaeth achos

### Dinas sy'n cael ei gyrru gan ddata

Mae Cyngor Caerdydd wedi gwreiddio llawer o'r arfer da hwn yn rhan o'u cenhadaeth tuag at datrys heriau'r ddinas. Y nod yw dod yn sy'n cael ei gyrru gan ddata drwy lwyddo mewn pedwar prif faes: defnyddio data'n fwy effeithiol, buddsoddi mewn sgiliau data a'u datblygu, gwneud data yn fwy ar gael yn agored, a datblygu ymddiriedaeth o ran rhannu data. Mae camau gweithredu y mae'r cyngor wedi gosod iddo'i hun o fewn y meysydd hyn.

Mae'r Cyngor yn sicrhau bod arweinwyr ac uwch reolwyr yn cefnogi diwylliant data lle mae data a dadansoddi yn cael eu defnyddio i lywio penderfyniadau a gwneud polisïau. Maent yn blaenoriaethu cysylltu setiau data gwerth uchel i wella darparu gwasanaethau a byddant yn ymdrechu i atal a lleihau dyblygu data drwy ymchwilio cyfrif integredig canolog. Wrth gydnabod bod ganddynt fwlch sgiliau wrth ddefnyddio data, maent yn ceisio adnabod staff i'w hyfforddi a'u datblygu a dangos i gyflogeion y manteision o weithio gyda data.

Mae gwerth yn cael ei osod ar rannu gwybodaeth gyda sefydliadau'r sector cyhoeddus a sefydliadau ehangach ar sut i ddefnyddio data er mantais iddynt, ac yn fewnol byddant yn dangos lle mae data wedi'i ddefnyddio i gael effaith. Mae'r Cyngor yn bwriadu cyhoeddi data agored, ac mae'n ei weld fel ffordd o ymgysylltu a grymuso dinasyddion yn ogystal â dod yn fwy tryloyw ac ymatebol. Bydd hyn hefyd yn ddefnyddiol i sefydliadau eraill o ran datblygu eu gwasanaethau a'u cynnyrch, y maent yn eu hannog i gyfrannu eu data. Nod y Cyngor yw ennill ymddiriedaeth y cyhoedd a dangos ei fod yn dryloyw wrth gasglu, defnyddio a rhannu data, ar ben y prosesau sydd eisoes yn eu lle sy'n cydymffurfio â deddfau GDPR.

Ffynhonnell: Dinas Glyfar Caerdydd. Cenhadaeth 2: Dinas sy'n cael ei gyrru gan ddata[60]

**Ffynonellau data meintiol sydd ar gael i gyrff cyhoeddus yng Nghymru a sut y gellir eu defnyddio i fesur anfantais economaidd-gymdeithasol ac anghydraddoldeb canlyniadau.**

| | | | | Mesur Anfantais economaidd-gymdeithasol | | | | | Mesur Anghydraddoldebau Canlyniad | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Ffynhonnell data[1] | Amlder | Disgrifiad | Lefel ardal[2] | Amddifadedd ardal | Cyfoeth | Cefndir economaidd-gymdeithasol | Incwm | Amddifadedd materol | Addysg | Gwaith | Safon byw | Iechyd | Cyfiawnder a diogelwch personol | Cyfranogiad |
| **Cyfrifiad** | 2021 (bob 10 mlynedd) | [3] | AC, ACEHI, ACEHC | ✓ | × | ✓ | × | × | ✓ | ✓ | × | ✓ | × | × |
| **Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru** | 2019 (pob 4-5 mlynedd)[4] | [5] | ACEHI | ✓ | × | ✓ | ✓ | × | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| **Fframwaith Canlyniadau Iechyd y Cyhoedd** | 2022[6] | [7] | ACEHI, ACEHC, ACEHU | ✓ | × | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |

1 Ceir rhagor o wybodaeth am bob ffynhonnell ddata yn yr adran adnoddau.
2 Ceir rhagor o wybodaeth am bob lefel ardal yn yr adran adnoddau.
3 Mae'r cyfrifiad yn arolwg o holl boblogaeth Cymru a Lloegr sy'n rhoi cyfrif manwl o'r bobl a'r cartrefi ar y pryd.
4 Gellir diweddaru dangosyddion unigol yn flynyddol.
5 Mae Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALlC) yn fynegai (cyfuniad o fesuriadau ar wahân) a luniwyd i nodi ardaloedd bach yng Nghymru sydd â'r crynodiadau uchaf o sawl math gwahanol o amddifadedd cymharol.
6 Casglu ffynonellau data sy'n cael eu diweddaru. Bydd ffynonellau data ychwanegol yn cael eu hychwanegu erbyn 2023.
7 Mae Fframwaith Canlyniadau Iechyd y Cyhoedd (PHOF) yn nodi cyd-ddealltwriaeth o'r canlyniadau iechyd sy'n bwysig i bobl Cymru, ac mae gan bob canlyniad ddangosyddion unigol o amrywiaeth o ffynonellau data.

# Ymgysylltiad ystyrlon

Mae gwrando ar gymunedau a gweithio gyda hwy ar gyfer gwell canlyniadau yn gonglfaen y **Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol**, y **Ddyletswydd Cydraddoldeb Sector Cyhoeddus** a'r **Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol**. Mae felly'n arfer da i sefydliadau gymryd golwg hirdymor o sut mae'r sefydliad yn ymgysylltu, yn cynnwys ac yn ymgynghori â phobl i sicrhau bod dull cydlynus yn cael ei ddatblygu.

Er nad yw hwn yn ganllaw ar sut i ymgysylltu'n effeithiol â chymunedau, ni ellir deall anfantais economaidd-gymdeithasol ar ei phen ei hun. Ceir cipolwg ar y ffordd orau o fynd i'r afael â thlodi ac anghydraddoldeb mewn cymunedau â phrofiad o fyw.  Nid yw ymgysylltu ystyrlon yn ymwneud â chasglu llawer o straeon neu astudiaethau achos, ond â deall y persbectif cyfunol, a sicrhau ei fod yn cael ei gynrychioli'n gywir ac yn onest. Dylai ymgysylltu ystyrlon arwain at ymarferwyr yn datblygu dealltwriaeth fwy cynnil o fater ac i gyfranogwyr deimlo eu bod wedi cael eu clywed a'u deall. Mae'r canllaw hwn felly yn rhoi trosolwg o'r egwyddorion allweddol o ymgysylltu â'r rhai sydd â phrofiad byw.

I gael cymorth a chyngor pellach i ymgysylltu â phobl a chymunedau, gellir dod o hyd i adnoddau ar Rwydwaith Cydgynhyrchu Cymru.

## Beth yw profiad byw?

Un diffiniad o brofiad byw yw profiad pobl y mae mater, neu gyfuniad o faterion, wedi cael effaith uniongyrchol arnynt. O fewn ymchwil ac ymgysylltu, mae'n cyfeirio at y wybodaeth a'r cynrychioliad o'r profiadau hyn.

## Sut gall ymgysylltu ystyrlon fy helpu?

Bydd ymgysylltu'n ystyrlon â phobl a chymunedau sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol yn helpu cyrff cyhoeddus i leihau anghydraddoldebau iechyd. Mae tystiolaeth sylweddol mai pobl sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol yn aml yw'r rhai sydd â'r angen mwyaf am wasanaethau ond sy'n llai tebygol o'u derbyn.[61]

Bydd ymgysylltu â phobl a chymunedau yn cefnogi cyrff cyhoeddus i wella iechyd y boblogaeth, ansawdd gwasanaethau a'u heffeithlonrwydd a'u cynaliadwyedd. Mae'r arbenigedd a'r mewnwelediad y mae pobl â phrofiad byw yn eu cynnig i'n gwaith yn unigryw ac yn werthfawr, gan ddarparu naratifau dilys a phwerus yn aml a all herio rhagdybiaethau a thaflu goleuni ar rwystrau i wasanaethau.

**Sut gall ymgysylltu ystyrlon helpu?**

| Iechyd y boblogaeth | Gwasanaethau o safon | Effeithlonrwydd a chynaliadwyedd |
|---|---|---|
| • Gall data ansoddol a mewnwelediad ein helpu i adeiladu gwybodaeth am effaith penderfynyddion ehangach iechyd.<br>• Bydd gwell dealltwriaeth o gymunedau yn caniatáu i ni ddeall yn well y cryfderau a'r asedau oddi mewn iddynt. | • Bydd ymgysylltu â chymunedau yn arwain at wasanaethau sydd wedi'u dylunio'n well i gwrdd â'u hanghenion. | • Bydd deall y rhwystr i fynediad yn caniatáu i ni ddarparu opsiynau mwy effeithlon a chynaliadwy.<br>• Gall gwell dealltwriaeth o angen cymunedol ein cefnogi i flaenoriaethu ardaloedd yn seiliedig ar anghenion. |

Wedi'i addasu o *Guidance on working in partnershp with people and communities* t.19

## Egwyddorion ymgysylltu effeithiol

Mae pedair egwyddor allweddol ar gyfer ymgysylltu'n effeithiol â phobl a chymunedau: ymgysylltu o'r cychwyn cyntaf, ymrwymo i'r broses, triongli data a dadansoddi data a gweithredu arno.

| | |
|---|---|
| **Cynnwys pobl o'r dechrau**<br>Defnyddwyr cynrychioliadol, nid cynrychiolaeth gan ddefnyddwyr | **Ymrwymo i'r broses**<br>Yn cynnwys amser a adnoddau |
| **Triongli data**<br>Ymchwilio i sut gall ffurfiau amrywiol o dystiolaeth lywio polisi a dylunio gwasanaeth | **Dadansoddi a gweithredu ar adborth**<br>Cau'r cylch drwy gyfathrebu yn ôl i'r rhai gafodd eu hymgysylltu |

## Ymrwymo i'r broses

Bydd ymgysylltu yn cymryd amser ac egni. Rhaid i hyn gael ei gynnwys yn y cynllunio ar ddechrau prosiect neu fenter a chyn belled ag y bo modd rhaid dechrau ymgysylltu cyn gosod gormod o fanylion y cynlluniau, er mwyn rhoi cyfle i'r cynllunio gael ei ddylanwadu'n wirioneddol gan y gweithgaredd ymgysylltu.

Gall y rhai sydd â phrofiad byw gael eu hystyried yn arbenigwyr yn ôl profiad ac mae'r cyfle i ymgysylltu hefyd yn gyfle i ddangos ymrwymiad i'r Ddyletswydd drwy drin cynrychiolwyr yn yr un modd ag unrhyw arbenigwr arall yr ymgynghorir ag ef. Lle bo'n briodol gall hyn olygu talu'r cynrychiolydd am yr amser a roddwyd i'r ymgysylltu.

## Cynnwys pobl o'r cychwyn cyntaf

Er mwyn sicrhau bod y profiad byw yn cael ei ddal yn gywir, ni ellir ei leihau i astudiaethau achos unigol neu straeon defnyddwyr - rhaid i'r rhain fod yn gynrychioliadol o grŵp poblogaeth ehangach. Bydd angen i gyrff cyhoeddus ystyried y ffordd orau o sicrhau bod gennych leisiau cynrychioliadol 'o amgylch y bwrdd'.

## Triongli data

Dylid ystyried y profiad byw ochr yn ochr â mathau eraill o ddata, gan wella dealltwriaeth gyffredinol cyrff cyhoeddus o'r maes y mae am gael effaith arno.

## Dadansoddi adborth a gweithredu arno

Mae 'cau'r cylch adborth' yn hanfodol i ymgysylltu cynaliadwy ac effeithiol. Mae hyn yn golygu dweud wrth bobl pa effaith a gafodd eu hadborth, megis newidiadau i fenter a gynlluniwyd. Rhaid i'r corff cyhoeddus gau'r cylch hyd yn oed os nad yw'r adborth yn y pen draw yn newid sut mae'r gwasanaeth neu'r rhaglen yn cael ei ddarparu. Gallai hyn fod oherwydd tystiolaeth arall sy'n cyflwyno achos cymhellol dros ffordd arall o weithredu. Dylid cyfleu'r rhesymeg dros wneud y penderfyniad hwn yn ôl i'r rhai yr ymgysylltwyd â hwy, gan sicrhau eu bod yn ymwybodol y gwrandawyd arnynt ac na chânt eu hanwybyddu.

## Gwahanol ffyrdd o ymgysylltu â chymunedau

Mae yna wahanol offer y gellir eu defnyddio i ymgysylltu â phobl a chymunedau, ond mae lefelau ymgysylltu gwahanol hefyd. Mae Sbectrwm Cyfranogiad y Cyhoedd yn fodel cydnabyddedig sy'n helpu i wneud dewisiadau gwybodus ar faint o ddylanwad sydd gan gymunedau dros y broses gwneud penderfyniadau.

Mae'n bwysig bod yn glir ynghylch pwrpas ymgysylltu o'r cychwyn cyntaf er mwyn llywio'r dull cywir, y sgiliau, yr effaith a ddymunir a sut y gallwn fesur a gwerthuso.

**Gwahanol ffyrdd o ymgysylltu**

| Hysbysu | Ymgynghori | Ymgysylltu | Cydweithio | Cydgynhyrchu |
|---|---|---|---|---|
| Rhannu gwybodaeth, er enghraifft drwy e-byst, taflenni a'r cyfryngau cymdeithasol. | Gofyn am farn ar opsiynau sydd wedi'u datblygu, er enghraifft drwy arolygon, gweminarau a chyfarfodydd cyhoeddus. | Siarad gyda phobl a chymunedau a gwrando arnynt i ddeall y materion, er enghraifft drwy fforymau cleifion, paneli dinasyddion neu grwpiau ffocws. | Gweithio gyda phobl a chymunedau i gynnwys eu syniadau, er enghraifft drwy sesiynau cyd-ddylunio ailadroddol. | Partneriaeth gyfartal o'r dechrau i'r diwedd, gan ddefnyddio cyfuniad o offer fel mapio asedau, sgyrsiau cymunedol a sesiynau cyd-ddylunio |

Yn y rhan fwyaf o sefyllfaoedd, dylai cyrff cyhoeddus ymdrechu i fod mor bell i'r dde o'r sbectrwm hwn â phosibl.

Fodd bynnag, nid yw bob amser yn well anelu at y lefel uchaf o ymgysylltu â'r gymuned, yn enwedig pan, er enghraifft, mae'n debygol y codir disgwyliadau y tu hwnt i'r gallu i gyflawni, neu rhaid i benderfyniadau fod yn seiliedig ar ffeithiau cymhleth sy'n gofyn am lawer iawn o amser neu arbenigedd i'w deall. Mae gwneud dewis gwybodus a chyfathrebu'n glir â phobl a chymunedau yn elfen bwysig o'r cylch adborth, gan sicrhau bod disgwyliadau'n cael eu deall a'u bodloni.

**Astudiaeth achos**

## Gwreiddio Ymwybyddiaeth Ddiwylliannol mewn Gofal Mamolaeth ac Ôl-enedigol

Ers dros 10 mlynedd, mae Cymdeithas Llywodraeth Leol Dwyrain Lloegr drwy'r Bartneriaeth Mudo Strategol wedi bod yn darparu ystod eang o brosiectau ymgysylltu ac integreiddio gyda grwpiau lleiafrifoedd ethnig yn Nwyrain Lloegr.

Maent yn deall yr heriau y gall staff iechyd a gofal eu profi wrth gefnogi ystod eang o grwpiau amrywiol a deinamig yn ddiwylliannol. Gall hyn gynnwys rhwystrau iaith, amharodrwydd i ymgysylltu â gweithwyr proffesiynol a diffyg ymddiriedaeth yn system y GIG oherwydd cysylltiadau blaenorol gydag awdurdodau yn eu gwledydd gwreiddiol. Maent hefyd yn deall, i lawer o grwpiau lleiafrifoedd ethnig, gall gofal iechyd yn y DU ymddangos yn ddryslyd ac yn aml yn anhygyrch oherwydd diffyg gwybodaeth briodol a dibyniaeth ar fod gan bobl fynediad i ddyfeisiau digidol.

Mewn ymateb i'r heriau a wynebir gan y gweithwyr iechyd proffesiynol a'r grwpiau lleiafrifoedd ethnig, maent wedi gweithio i greu gweithdai ymwybyddiaeth ddiwylliannol, sy'n effeithiol ac yn effeithlon o ran sicrhau datblygu llwybrau gofal mamolaeth ac ôl-enedigol ar gyfer gwahanol grwpiau ar draws y rhanbarth.

Roedd y gweithdai yn gyfle i nodi materion ymgysylltu oedd yn benodol i Ddwyrain Lloegr ac fe'u darparwyd gan aelodau ac eiriolwyr grwpiau lleiafrifoedd ethnig yr ystyriwyd eu bod yn anodd ymgysylltu â hwy ar draws y rhanbarth, yn cynnwys grwpiau LHDTQ+, grwpiau Africanaidd, grwpiau Iddewig Uniongred, grwpiau Sipsiwn a Theithwyr, grwpiau Roma, grwpiau De Asiaidd, grwpiau o Ddwyrain Ewrop, Ceiswyr Lloches a Ffoaduriaid.

Ffynhonnell: Guidance on working in partnership with people: Statutory Guidance, NHS England[62]

# Sut ydym yn gwybod a ydym wedi gwneud gwahaniaeth?

**Mae'n bwysig sicrhau bod cofnodion sefydliadol yn cael eu cadw i ddangos sut rydych wedi cydymffurfio â'r Ddyletswydd Economaidd-Gymdeithasol at ddibenion archwilio.**

**Gall casglu tystiolaeth am effaith gweithredu'r Ddyletswydd gefnogi'r gwaith o greu sylfaen dystiolaeth ar gyfer y corff cyhoeddus a sefydliadau eraill ynghylch yr hyn sy'n gweithio o ran mynd i'r afael â chanlyniadau anghyfartal sy'n ganlyniad anfantais economaidd-gymdeithasol.**

Gellir cynnal gwerthusiad o'r Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol ar dair lefel: proses, effaith a chanlyniad.

**Mae gwerthuso proses** yn ein galluogi i edrych ar sut rydym wedi gweithredu'r Ddyletswydd, i nodi prosesau neu systemau lle mae'n gweithio'n dda neu feysydd y gellid eu gwella. Mae gwerthuso proses yn canolbwyntio ar y gweithgareddau a ddarparwyd, pwy oedd yn gysylltiedig, yr adnoddau sydd eu hangen i gyflawni'r gwaith, pa broblemau a gafwyd a sut y cawsant eu datrys. Fel sefydliad, mae gwerthuso proses hefyd yn eich galluogi i fonitro cydymffurfiaeth â'r Ddyletswydd ac amlygu meysydd o arfer gorau.

Gall cyrff cyhoeddus hefyd ddefnyddio offeryn tracio cynnydd Llywodraeth Cymru fel ffordd o fonitro eu cynnydd tuag at gwrdd â gofynion y Ddyletswydd Economaidd-Gymdeithasol. Mae hwn yn offeryn defnyddiol ar gyfer asesu bylchau yng ngallu sefydliad i gyflawni'r Ddyletswydd. Mae'n bwysig sicrhau bod llywodraethu ar waith i gefnogi'r defnydd o'r offeryn a bod unrhyw asesiad yn cael ei fwydo'n ôl ar lefel y Bwrdd.

Mae **gwerthuso effaith** yn darparu gwybodaeth am yr effaith a gafodd y Ddyletswydd ar y polisi neu gynllun y gwasanaeth, a all fod yn gadarnhaol neu'n negyddol.

Byddai **gwerthuso canlyniadau** y Ddyletswydd Economaidd-Gymdeithasol â'r nod o fesur effeithiolrwydd ein polisi neu ddyluniad wrth fynd i'r afael ag anghydraddoldeb canlyniadau i bobl a chymunedau sy'n dioddef anfantais economaidd-gymdeithasol. Dylai hyn ddigwydd ar ôl i'r polisi neu'r gwasanaeth gael ei roi ar waith.

Mae'r tabl isod yn dangos y math o gwestiynau y gellid eu gofyn ar bob lefel werthuso ar gyfer y Ddyletswydd Economaidd Gymdeithasol.

**Mathau o gwestiynau gwerthuso**

| Proses | Effaith | Canlyniad |
|---|---|---|
| • Ar ba brosesau gweud penderfyniadau y cynhaliwyd asesiadau effaith?<br>• Pa weithgarwch ymgysylltu a gynhaliwyd?<br>• Pa ddata a ddefnyddiwyd?<br>• Beth oedd y rhwystrau i gynnal asesiad effaith? | • A wnaeth yr asesiad effaith newid cyfeiriad gwneud y penderfyniadau?<br>• Sut wnaeth yr asesiad effaith newid cyfeiriad gwneud y penderfyniadau? | • A gafodd gweithredu'r polisi neu'r gwasanaeth effaith gadarnhaol ar y canlyniadau i bobl a chymunedau sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol?<br>• A wnaeth gweithredu'r polisi neu wasanaeth gael unrhyw ganlyniadau anfwriadol (cadarnhaol neu negyddol) ar bobl neu gymunedau sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol? |

Mae'n bwysig nodi nad yw pob polisi neu wasanaeth yn gofyn am bob un o'r tair lefel o werthuso. Dylai lefel y gwerthusiad fod yn gymesur â maint yr ymyriad.

Mae tracio ac adrodd ar effaith yn bwysig er mwyn galluogi sefydliadau i ddysgu o'u hymarfer. Er bod gwahanol fecanweithiau adrodd ar gyfer y Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol, y Ddyletswydd Cydraddoldeb Sector Cyhoeddus a'r ddyletswydd Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, mae'n bosibl cysoni dangosyddion ar draws y dyletswyddau hyn a defnyddio adrodd blynyddol o dan y Ddyletswydd Cydraddoldeb Sector Cyhoeddus a'r Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol i adrodd yn dryloyw ar gynnydd eich sefydliad.

# Cyfeiriadau


1. Llywodraeth Cymru. *Cymru Fwy Cyfartal. Y Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol, Deddf Cydraddoldeb 2010. Canllawiau Statudol* .; 2021. https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2021-03/cymru-sy%E2%80%99n-fwy-cyfartal.pdf
2. Archwilio Cymru. *Asesiadau Effaith ar Gydraddoldeb Mwy nag Ymarfer Ticio Blychau?*; 2022. https://www.audit.wales/sites/default/files/publications/Asesiadau_or_effaith_ar_gydraddoldeb_cymraeg.pdf
3. Marmot M. *Build Back Fairer: The COVID-19 Marmot Review - The Health Foundation.*; 2020. https://www.health.org.uk/publications/build-back-fairer-the-covid-19-marmot-review
4. Piro FN, Næss Ø, Claussen B. Area deprivation and its association with health in a cross-sectional study: Are the results biased by recent migration? *Int J Equity Health*. 2007;6(1):1-15. doi:10.1186/1475-9276-6-10
5. Bandyopadhyay A, Whiffen T, Fry R, Brophy S. How does the local area deprivation influence life chances for children in poverty in Wales: A record linkage cohort study. *SSM - Popul Heal*. 2023;22:101370. doi:10.1016/J.SSMPH.2023.101370
6. Poortinga W, Dunstan FD, Fone DL. Neighbourhood deprivation and self-rated health: The role of perceptions of the neighbourhood and of housing problems. *Health Place*. 2008;14(3):562-575. doi:10.1016/J.HEALTHPLACE.2007.10.003
7. Stafford M, Marmot M. Neighbourhood deprivation and health: does it affect us all equally? *Int J Epidemiol*. 2003;32(3):357-366. doi:10.1093/IJE/DYG084
8. Llywodraeth Cymru. *Adroddiad Canlyniadau Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALlC) 2019.*; 2019. https://www.llyw.cymru/sites/default/files/statistics-and-research/2020-06/mynegai-amddifadedd-lluosog-cymru-2019-adroddiad-canlyniadau.pdf
9. Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Bro Morgannwg. Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru ym Mro Morgannwg. Cyhoeddwyd 2019. Cyrchwyd 4 Rhagfyr, 2022. https://www.valepsb.wales/cy/Our-Evidence/Our-Evidence.aspx
10. Iechyd Cyhoeddus Cymru. Disgwyliadau iechyd yng Nghymru gyda bwlch anghydraddoldeb. Cyhoeddwyd 2022. Cyrchwyd 5 Rhagfyr, 2022. https://publichealthwales.shinyapps.io/PHWO_HealthExpectanciesWalesProfile_WELSH_v2a/
11. Richardson E, Fenton L, Parkinson J, et al. The effect of income-based policies on mortality inequalities in Scotland: a modelling study. *Lancet Public Heal*. 2020;5(3):e150-e156. doi:10.1016/S2468-2667(20)30011-6
12. Nowatzki NR. Wealth inequality and health: A political economy perspective. *Int J Heal Serv*. 2012;42(3). doi:10.2190/HS.42.3.c
13. Pollack CE, Chideya S, Cubbin C, Williams B, Dekker M, Braveman P. Should Health Studies Measure Wealth?: A Systematic Review. *Am J Prev Med*. 2007;33(3):250-264. doi:10.1016/J.AMEPRE.2007.04.033
14. Zaninotto P, Batty GD, Stenholm S, et al. Socioeconomic Inequalities in Disability-free Life Expectancy in Older People from England and the United States: A Cross-national Population-Based Study. *Journals Gerontol Ser A*. 2020;75(5):906-913. doi:10.1093/GERONA/GLZ266
15. Braga B, McKernan S-M, Ratcliffe C, Baum S. *Wealth Inequality Is a Barrier to Education and Social Mobility | Urban Institute.*; 2017. https://www.urban.org/research/publication/wealth-inequality-barrier-education-and-social-mobility
16. Carter KN, Blakely T, Collings S, Gunasekara FI, Richardson K. What is the association between wealth and mental health? *J Epidemiol Community Heal*. 2009;63(3):221-226. doi:10.1136/JECH.2008.079483
17. Public Health England. Materion iechyd: lleihau anghydraddoldebau iechyd mewn salwch meddwl - GOV.UK. Cyhoeddwyd 2018. Cyrchwyd 27 Mawrth, 2023. https://www.gov.uk/government/publications/health-matters-reducing-health-inequalities-in-mental-illness/health-matters-reducing-health-inequalities-in-mental-illness
18. Office for National Statistics. Household total wealth in Great Britain: April 2018 to March 2020. Cyhoeddwyd 2022. Cyrchwyd 10 Rhagfyr, 2022. https://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/personalandhouseholdfinances/incomeandwealth/bulletins/totalwealthingreatbritain/april2018tomarch2020
19. Office for National Statistics. National balance sheet estimates for the UK - Office for National Statistics. Cyrchwyd 1 Ebrill, 2023. https://www.ons.gov.uk/economy/nationalaccounts/uksectoraccounts/bulletins/nationalbalancesheet/2021
20. Broome M, Leslie J. *Arrears Fears: The Distribution of UK Household Wealth and the Impact on Families.*; 2022. https://www.resolutionfoundation.org/publications/arrears-fears/
21. Angelopoulos K, Lazarakis S, Mancy R, Schroeder M. *Briefing Note: Medium-Run Wealth Inequality Following COVID-19*. University of Glasgow and Lancaster University; 2021. https://eprints.gla.ac.uk/232684/1/232684.pdf
22. Thomson S. Achievement at school and socioeconomic background—an educational perspective. *npj Sci Learn 2018 31*. 2018;3(1):1-2. doi:10.1038/s41539-018-0022-0
23. de Neubourg E, Borghans L, Coppens K, Jansen M. Explaining Children's Life Outcomes: Parental Socioeconomic Status, Intelligence and Neurocognitive Factors in a Dynamic Life Cycle Model. *Child Indic Res*. 2018;11(5):1495-1513. doi:10.1007/s12187-017-9481-8
24. Mazumder B. Fortunate Sons: New Estimates of Intergenerational Mobility in the United States Using Social Security Earnings Data. *Rev Econ Stat*. 2005;87(2):235-255. doi:10.1162/0034653053970249
25. Davis-Kean PE, Tighe LA, Waters NE. The Role of Parent Educational Attainment in Parenting and Children's Development. *Curr Dir Psychol Sci*. 2021;30(2):186-192.

doi:10.1177/0963721421993116

26. Moore GF, Littlecott HJ, Evans R, Murphy S, Hewitt G, Fletcher A. School composition, school culture and socioeconomic inequalities in young people's health: Multi-level analysis of the Health Behaviour in School-aged Children (HBSC) survey in Wales. *Br Educ Res J*. 2017;43(2):310-329. doi:10.1002/BERJ.3265
27. Moore G, Angel L, Brown R, van Godwin J, Hallingberg B, Rice F. Socio-Economic Status, Mental Health Difficulties and Feelings about Transition to Secondary School among 10–11 Year Olds in Wales: Multi-Level Analysis of a Cross Sectional Survey. *Child Indic Res*. 2021;14(4):1597-1615. doi:10.1007/s12187-021-09815-2
28. Loughborough University. 1-in-4 children living in poverty set to worsen during cost of living crisis | Criminology, Sociology and Social Policy | Loughborough University. Cyhoeddwyd 2022. Cyrchwyd 14 Rhagfyr, 2022. https://www.lboro.ac.uk/subjects/social-policy-studies/news-events/news/2022/children-poverty/
29. Stone J. *Local Indicators of Child Poverty after Housing Costs, 2020/21.*; 2022. https://endchildpoverty.org.uk/wp-content/uploads/2022/07/Local-child-poverty-indicators-report-2022_FINAL.pdf
30. Brewer M, Fry E, Try L. *The Living Standards Outlook 2023.*; 2023. https://www.resolutionfoundation.org/publications/
31. International Monetary Fund. The IMF and income inequality: introduction to inequality. Cyhoeddwyd 2022. Cyrchwyd 18 Rhagfyr, 2022. https://www.imf.org/en/Topics/Inequality/introduction-to-inequality
32. Office for National Statistics. Regional gross disposable household income: all ITL level regions - Office for National Statistics. Cyhoeddwyd 2022. Cyrchwyd 20 Rhagfyr, 2022. https://www.ons.gov.uk/economy/regionalaccounts/grossdisposablehouseholdincome/datasets/regionalgrossdisposablehouseholdincomegdhi
33. Llywodraeth Cymru. Incwm cartref gwario gros rhanbarthol: 2020 | LLYW.CYMRU. Cyhoeddwyd 2022. Cyrchwyd 20 Rhagfyr 2022 https://www.llyw.cymru/incwm-aelwydydd-crynswth-iw-wario-rhanbarthol-2020
34. Benzeval M, Taylor J, Judge K. Evidence on the Relationship between Low Income and Poor Health: Is the Government Doing Enough? *Fisc Stud*. 2000;21(3):375-399. doi:10.1111/j.1475-5890.2000.tb00029.x
35. Whynes DK. Deprivation and self-reported health: are there "Scottish effects" in England and Wales? *J Public Health (Bangkok)*. 2009;31(1). doi:10.1093/pubmed/fdn089
36. Schmuecker K, Earwaker R. *Not Heating, Eating or Meeting Bills: Managing a Cost of Living Crisis on a Low Income | JRF.*; 2022. https://www.jrf.org.uk/report/not-heating-eating-or-meeting-bills-managing-cost-living-crisis-low-income
37. Geddes I, Bloomer E, Allen J, Goldblatt P. *The Health Impacts of Cold Homes and Fuel Poverty |Marmot Review Team.*; 2011. https://www.instituteofhealthequity.org/resources-reports/the-health-impacts-of-cold-homes-and-fuel-poverty/the-health-impacts-of-cold-homes-and-fuel-poverty.pdf
38. Office for Budget Responsibility. *Economic and Fiscal Outlook.*; 2023. https://obr.uk/docs/dlm_uploads/OBR-EFO-March-2023_Web_Accessible.pdf
39. Francis-Devine B, Orme S. *Income Inequality in the UK.*; 2023. https://researchbriefings.files.parliament.uk/documents/CBP-7484/CBP-7484.pdf
40. Titheridge H, Christie N, Mackett R, Oviedo Hernández D, Ye R. *Transport and Poverty: A Review of the Evidence Transport and Poverty.*; 2014. https://www.ucl.ac.uk/transport/sites/transport/files/transport-poverty.pdf
41. Llywodraeth Cymru. *Cerbydau Gwasanaeth Cyhoeddus (Bysiau a Thacsis): Ebrill 2019 i Fawrth 2020 | LLYW.CYMRU.*; 2021. Cyrchwyd 4 Ionawr, 2023. https://www.llyw.cymru/cerbydau-gwasanaeth-cyhoeddus-bysiau-thacsis-ebrill-2019-i-mawrth-2020-html
42. RAC Foundation. Transport price index. Cyhoeddwyd 2022. Cyrchwyd 19 Rhagfyr, 2022. https://www.racfoundation.org/data/cost-of-transport-index
43. Sustrans Cymru. *Creu'r Cysylltiadau: Pam Mae'n Rhaid i Gymru Weithredu Nawr i Fynd i'r Afael â Thlodi Trafnidiaeth a Sicrhau Mynediad i Bawb.*; 2022. https://www.sustrans.org.uk/media/10426/transportpovertypaper-sustrans_wel.pdf
44. Llywodraeth Cymru. Ystadegau yn ymwneud â thlodi | LLYW.CYMRU. Cyhoeddwyd 2022. Cyrchwyd 20 Rhagfyr, 2022. https://www.llyw.cymru/ystadegau-cysylltiedig-thlodi
45. Deutsch J, Guio A-C, Pomati M, Silber J. Material Deprivation in Europe: Which Expenditures are Curtailed First? *Soc Indic Res*. 2015;120(3):723-740. doi:10.1007/s11205-014-0618-6
46. Hafferty C. *Pa ffactorau sy'n gysylltiedig â phobl yn byw ar aelwydydd sydd mewn amddifadedd materol?*; 2020. https://www.llyw.cymru/sites/default/files/statistics-and-research/2020-03/pa-ffactorau-syn-gysylltiedig-a-phobl-yn-byw-ar-aelwydydd-sydd-mewn-amddifadedd-materol.pdf
47. Francis-Devine B. *Poverty in the UK: Statistics.*; 2022. https://researchbriefings.files.parliament.uk/documents/SN07096/SN07096.pdf
48. Fouweather T, Gillies C, Wohland P, et al. Comparison of socio-economic indicators explaining inequalities in Healthy Life Years at age 50 in Europe: 2005 and 2010. *Eur J Public Health*. 2015;25(6):978-983. doi:10.1093/EURPUB/CKV070
49. Allen J, Dyakova M, Cotter-Roberts A, Darlington O, Masters R, Bellis MA. *Menter Adroddiad Statws Tegwch Iechyd Cymru (WHESRi) Dylanwadu ar y Bwlch Iechyd yng Nghymru: Papur Trafod Dadansoddi Dadelfeniad.*; 2022. https://phwwhocc.co.uk/wp-content/uploads/2022/07/2022_whesri_influencingthehealthgapinwales_w.pdf
50. Public Health Scotland. Leadership overview - Leadership - Reducing health inequalities - Improving health. Cyhoeddwyd 2021. Cyrchwyd 3 Ebrill, 2023. https://www.healthscotland.scot/reducing-health-inequalities/leadership/leadership-overview
51. Catalyst 2030. What is systems change – Catalyst 2030. Accessed April 3, 2023. https://catalyst2030.net/what-is-systems-change/

52. Hulme A, Thompson J, Brown A, Argus G. The need for a complex systems approach in rural health research. *BMJ Open*. 2022;12(10):e064646. doi:10.1136/BMJOPEN-2022-064646

53. Peden J, Stürup-Toft S, Bath R, Jesurasa A. *Collaborative Approaches to Preventing Offending and Re-Offending in Children (CAPRICORN) | Public Health England.*; 2019. https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/828228/CAPRICORN_resource.pdf

54. Begovic M, Vester Haldrup S, Quaggiotto G, Colville J, Sadiku L, Oprunenco A. Innovation at UNDP: changing ourselves, asking different types of questions. Cyhoeddwyd Hydref 2020. Cyrchwyd Chwefror 6, 2023. https://innovation.eurasia.undp.org/innovation-at-undp-changing-ourselves-asking-different-types-of-questions/

55. Scottish Government. *The Fairer Scotland Duty. Guidance for Public Bodies.*; 2021. Cyrchwyd 6 Ebrill, 2023. http://www.gov.scot/publications/fairer-scotland-duty-guidance-public-bodies/pages/4/

56. Smith EW, Rodriguez DG, Brawner J. *Evaluating the Socio-Economic Duty in Scotland and Wales | Equality and Human Rights Commission.*; 2021. https://www.equalityhumanrights.com/en/publication-download/evaluating-socio-economic-duty-scotland-and-wales

57. European Centre for Health Policy. *Health Impact Assessment: Main Concepts and Suggested Approach (Gothenburg Consensus Paper).*; 1999. https://web.archive.org/web/20061007033923/http:/www.who.dk/document/PAE/Gothenburgpaper.pdf

58. Green L, Ashton K, Azam S, Dyakova M, Clemens T, Bellis MA. Green, L; Ashton, K; Azam, S; Dyakova, M; Clemens, T a Bellis, M.A. Defnyddio Asesiad o'r Effaith ar Iechyd (HIA) i ddeall goblygiadau penderfyniadau polisi ar gyfer iechyd a llesiant ehangach: 'polisi aros gartref a chadw pellter cymdeithasol' Covid-19 yng Nghymru. *BMC Public Health*. 2021;21(1):1456. doi:10.1186/s12889-021-11480-7

59. Llywodraeth Cymru. *Cymru Fwy Cyfartal: Mapio'r Dyletswyddau.*; 2021. https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2021-04/cymru-syn-fwy-cyfartal-canllaw-mapio.pdf

60. Cyngor Caerdydd Cenhadaeth 2: Dinas a yrrir gan Ddata - Dinas Glyfar Caerdydd. Cyrchwyd 6 Ebrill, 2023. https://www.caerdyddglyfar.co.uk/trosolwg-cenhadaeth/cenhadaeth-2-dinas-a-yrrir-gan-ddata/

61. Appleby J, Deeming C. Inverse Care Law. *Health Serv J*. 2001;111(5760):37. https://pureportal.strath.ac.uk/en/publications/inverse-care-law

62. NHS England. *Working in Partnership with People and Communities: Statutory Guidance.*; 2022. Cyrchwyd 6 Ebrill, 2023. https://www.england.nhs.uk/long-read/working-in-partnership-with-people-and-communities-statutory-guidance/

# Adnoddau

## Cyffredinol

Cymru Fwy Cyfartal: Y Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol

Y Ddyletswydd Economaidd-Gymdeithasol: canllawiau statudol

Cymru Fwy Cyfartal: Mapio'r Dyletswyddau

Dyletswydd Economaidd-Gymdeithasol: offeryn tracio cynnydd

## Arweinyddiaeth Systemau

Leadership Framework for Health Inequalities Improvement | NHS Confederation

Board Assurance Tool - Leadership Framework for Health Inequalities Improvement.pdf (nhsconfed.org)

Board reporting Template

Cymru Fwy Cyfartal - Mapio'r Dyletswyddau (llyw.cymru)

## Defnyddio data yn effeithiol

Canllawiau statudol Llywodraeth Cymru: Cymru Fwy Cyfartal: Y Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol. Enghreifftiau o anghydraddoldebau canlyniad oherwydd anfantais economaidd-gymdeithasol a COVID-19

Adolygiad tystiolaeth: anfantais economaidd-gymdeithasol ac anghydraddoldebau canlyniad

### Cyfrifiad

Main page for Census at Office for National Statistics: https://www.ons.gov.uk/census

Census interactive map: https://www.ons.gov.uk/census/maps

Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALlC)

Ystadegau prif dudalen Cymru: https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Community-Safety-and-Social-Inclusion/Welsh-Index-of-Multiple-Deprivation

Offeryn rhyngweithiol MALlC 2019: https://wimd.gov.wales/about/domains?lang=cy

Canllawiau MALlC 2019: https://www.llyw.cymru/sites/default/files/statistics-and-research/2022-01/mynegai-amddifadedd-lluosog-cymru-2019-canllaw.pdf

Adroddiad canlyniadau MALlC 2019: https://www.llyw.cymru/sites/default/files/statistics-and-research/2020-06/mynegai-amddifadedd-lluosog-cymru-2019-adroddiad-canlyniadau.pdf

### Fframwaith Canlyniadau Iechyd y Cyhoedd

Prif dudalen ICC: https://icc.gig.cymru/gwasanaethau-a-thimau/arsyllfa/data-a-dadansoddi/fframwaith-canlyniadau-iechyd-y-cyhoedd/

Fframwaith Canlyniadau Iechyd y Cyhoedd: https://icc.gig.cymru/gwasanaethau-a-thimau/arsyllfa/data-a-dadansoddi/fframwaith-canlyniadau-iechyd-y-cyhoedd-2022/

Canllaw technegol: https://phw.nhs.wales/services-and-teams/observatory/data-and-analysis/publication-documents/phof/phof-technical-guide-pdf-english/

## Data lefel uchel arall sy'n cael ei ddiweddaru'n rheolaidd fel y'i defnyddir yng Nghanllawiau Statudol Llywodraeth Cymru[1]:

The Equality and Human Rights Commission measurement framework for equality and human rights setting the indicators for Is Wales Fairer?

The Equality and Human Rights Commission's report Is Wales Fairer?

Data cyflogaeth blynyddol a gyhoeddir o dan ddyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus

Adroddiad Tueddiadau'r Dyfodol Llywodraeth Cymru

Adroddiad Llesiant Cymru Llywodraeth Cymru

Adolygiad Cydraddoldeb Rhywedd Chwarae Teg

Adroddiad Cyflwr y Genedl Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru

Adroddiadau Comisiynydd Plant Cymru

Ystadegau ar gael o YstadegauCymru a'r Swyddfa Ystadegau Gwladol

Tlodi Incwm Cymharol (Aelwydydd Islaw'r Incwm Cyfartalog)

Tlodi Parhaus

Llesiant a Chyllid, gan gynnwys Amddifadedd Materol (Arolwg Cenedlaethol Cymru)

Data Incwm a Chyfoeth Teuluoedd, Swyddfa Ystadegau Gwladol

Cyfres Tlodi yng Nghymru Sefydliad Joseph Rowntree

## Lefelau ardal

https://www.healthmapswales.wales.nhs.uk/geographies/

https://www.ons.gov.uk/methodology/geography/ukgeographies/censusgeographies/census2021geographies

# Ymgysylltiad ystyrlon

Yr Egwyddorion Cenedlaethol ar gyfer Ymgysylltu â'r Cyhoedd yng Nghymru

Y Safonau Cenedlaethol ar gyfer Cyfranogiad Plant a Phobl Ifanc

Offeryn Taith Ymgysylltiad Comisiwn Cenedlaethau'r Dyfodol

5 Egwyddor Cydgynhyrchu gan Rwydwaith Cydgynhyrchu Cymru

Canllawiau ar ofynion Dyletswyddau Penodol Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus

Egwyddorion Ymgysylltiad Cymunedol ar gyfer Grymuso